ISSN: 1473-3692

# Blewyn o Obaith

Rhifyn 470 · Mai 2020

Rhifyn digidol arbennig o'r Blewyn Glas - daw eto haul ar fryn!

## Llongyfarchiadau, Lily!

Mae llawer o sôn wedi bod yn y cyfryngau'n ddiweddar am gymunedau ac unigolion yn codi arian at elusennau'r Gwasanaeth Iechyd, a Chapten Tom yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus am hynny. Wel, Capten Tom oedd wedi ysbrydoli un ferch fach o Fachynlleth, Lily Davies, i gwblhau her ei hun i ddiolch i weithwyr allweddol ac i godi arian at elusen deilwng. Sylwodd Mam Lily arni'n rhedeg o gwmpas yr ardd un dydd Llun gan ofyn iddi beth oedd hi'n ei wneud, a'i hateb oedd "codi arian i'r Gwasanaeth Iechyd". Roedd hi wedi gweld Capten Tom yn codi arian trwy gerdded, ac roedd hi'n awyddus i wneud her debyg er mwyn helpu. Ar y diwrnod cyntaf fe greodd faner ei hun i nodi'r achlysur, a gofyn i'w mam greu crys-t enfys iddi redeg ynddo ar gyfer yr ail ddiwrnod. Er mwyn diolch i'r holl weithwyr allweddol, gwisgodd i fyny fel postman i redeg un diwrnod, fel nyrs diwrnod arall, fel ei hathrawon ac fel gyrrwr lori sbwriel! O hynny ymlaen, gyda chymorth ei theulu, llwyddodd y ferch fach 6 oed i redeg cyfanswm o dros 600 lap dros 6 diwrnod o gwmpas ei gardd, a chasglu dros £1000 at 'Apêl Covid-19 Bwrdd Iechyd Hywel Dda'. Llongyfarchiadau mawr iti, Lily!




## Barf binc i Derwyn!



Ddechrau mis Mai, fe benderfynodd Derwyn Pugh ei fod am liwio ei farf yn binc er mwyn codi arian at apêl ffrind agos i'r teulu, Dr Elin, tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais. Mewn cyfnod mor fregus, roedd Derwyn yn gweld hyn fel ffordd wych o roi rhywbeth yn ôl i'n ysbyty lleol. Doedd Derwyn heb siafio ers dechrau'r 'lockdown' ddiwedd Mis Mawrth, a dim bwriad ganddo i wneud nes caiff ei beint cyntaf wrth y bar, felly roedd ei farf wedi tyfu'n 'o lew erbyn dechrau Mai! Wrth i'r Blewyn Glas fynd i'r wasg, yr oedd wedi casglu bron i £2000, a hynny gan noddwyr a phobl leol fu'n cymryd rhan yn y sialens llyncu wy. I unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu, ewch i wefan www.justgiving.com a chwiliwch am enw 'Derwyn' yn y bar chwilio ar dop y dudalen. Llongyfarchiadau, Derwyn, a gobeithio eich bod yn dod i arfer gyda'r farf binc erbyn hyn!

## Diolch, Tŷ Cemaes!



Mae Pwyllgor Pentref Cemaes ar y cyd ag Elin Vaughan Crowley wedi bod yn gweithio ar brosiect cymunedol cyfrinachol, i ddiolch i Isabel Bottoms, perchennog Tŷ Cemaes a'i staff am eu gwasanaeth amhrisiadwy i'r gymuned ar yr adeg anodd yma.

Yng nghanol y pandemig pan mae'r archfarchnadoedd mawr yn methu â chynnal eu lefelau stoc a chludiant, mae Isabel, Eleri Cwm a Nadine England wedi bod yn gweithio'n tu hwnt o galed i ateb gofynion pobl Dyffryn Dyfi – yn gwsmeriaid oedd yn prynu yn y siop, rheiny oedd yn archebu nwyddau dros y ffôn i'w casglu, a'r bobl oedd yn methu gadael eu cartrefi ac angen eu nwyddau wedi'u cludo atynt. Pan doedd dim blawd yn archfarchnadoedd mwyaf adnabyddus y wlad, roedd digonedd yn Nhŷ Cemaes bob amser!

Trefnodd Elin a'r pwyllgor i bobl leol greu byntings papur i ddiolch i'r staff, wedi eu creu allan o drionglau wedi eu haddurno gan bawb. Gofynnwyd i bawb ddychwelyd eu triongl i flwch postio tu allan Neuadd Cemaes i Elin eu rhoi ar linyn a chreu'r byntings gorffenedig.

Ar ddydd Gwener, 15fed o Fai cynhaliwyd digwyddiad bychan, oedd o fewn canllawiau'r Llywodraeth ac yn cadw at reolau pellter cymdeithasol, i chwifio'r bynting ac i gymeradwyo'r staff. Yn wir, mae'r cyfnod yma wedi dangos gwerth y busnesau bach lleol a does ond gobeithio y gwneith y gefnogaeth barhau wedi'r cyfnod yma basio.

I weld lluniau o ffenestri lliwgar y siop, trowch i dudalen 10. Diolch yn fawr, Tŷ Cemaes am eich gwasanaeth clodwiw i'r ardal – gyda'n gilydd, yn gryfach.

**papurblewynglas@gmail.com**

**Golygydd**: Manon Wyn, Glan Coegen, Cemaes, Machynlleth, Powys, SY20 9PR

**Panel Golygyddol**
Llifon Ellis, Eryl Evans, Gwenfair Glyn, Eirian Jones, Gill Jones, Iola Jones, Lydia Jones, Mari Lisa

**Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol**

**Swyddogion**
**Cadeirydd**: Gwilym Fychan, Felin Newydd, Abercegir (01650 511212)
**Ysgrifennydd**: Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458)
**Trysorydd**: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
**Dylunydd**: Elgan Griffiths

**Y Blewyn drwy'r post**
Swyddog postio'r papur: Anita Owen, Rhoshelyg, Pant y Crug, Capel Seion, Aberystwyth SY23 4EF (01970 881097)
Pris y papur drwy'r post am flwyddyn - £25

**Newyddion/Llythyrau/Hysbysebion i'r Blewyn**
Dylid e-bostio unrhyw newyddion neu hysbysebion i: papurblewynglas@gmail.com
neu bostio at Carys Jones, Maesterran, Penegoes, Machynlleth SY20 8UW (01654 702458) maesterran@btopenworld.com
Noder: Gellir archebu cyfres o 6 hysbyseb am bris 5. Hyd at 1/8 tudalen: £10; Hyd at ¼ tudalen: £20; Hyd at ½ tudalen: £40
Tudalen gyfan: £80
Telerau cynnwys taflen
O natur ddiwylliannol: £20;
O natur fasnachol: £30
O natur fasnachol cenedlaethol: £60

**Diolchiadau**
**Swyddog Diolchiadau**: Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) sianmwyars@outlook.com
Cofiwch na ddylai Diolchiadau neu gyhoeddiadau fod dros 50 o eiriau. Amgaewch y tâl priodol sef £5 gyda'r cyhoeddiad mewn amlen gyda'i gilydd i Siân Evans os gwelwch yn dda – drwy'r post neu drwy law eich cysylltydd lleol. Byddwn yn cydnabod tâl o £10 neu fwy, neu unrhyw rodd nad yw'n ddiolchiadau, yn y rhestr Rhoddion.

Cyhoeddwyd gan bwyllgor y Blewyn Glas.
Argraffwyd gan Wasg Y Lolfa, Talybont.
Aelod o Gymdeithas Papurau Bro Cymraeg.

# Diolchiadau

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael i goffrau'r Blewyn Glas:

David a Gaynor Dancer
Eleri Humphreys, Hafan, Talerddig

Dymuna David a Gaynor Dancer ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbynion yn ddiweddar ar achlysur eu hymddeoliad.

Diolch am yr holl gyfarchion pen-blwydd a dderbyniais fis diwethaf pan yn dathlu pen-blwydd arbennig. Gobeithio y cawn gwrdd lan yn fuan i ddathlu. Diolch, Eleri Humphreys, Hafan, Talerddig.



Greta Nel ac Aron Lleu gyda'u enfys yn Nhŷ Gwyn, Aberhosan




Mabon Ifan, Erin Lois ac Efa Non, Gwalia, Mallwyd wedi gwneud enfys gyda theganau lliwgar


Ioan a Ieuan o Lanbrynmair gyda'u enfys


Marged a Megan, Gwernhefin, Mallwyd ar eu helfa wyau Pasg!


Haydn a Ethan James, Gelli-goch, Glaspwll.

# Codi Calon



Beca Tudur yn chwarae yn ei chegin mwd newydd!



Yr afon Ddyfi yn ei llawn ogoniant!




Now a Casi yn mwynhau ar y trampolin



Olivia yn mwynhau ei phen-blwydd yn 4 oed. Pen-blwydd Hapus iawn i ti!





Mali Enlli a Tomos Hedd yn mwynhau'r awyr agored yn Rhiwgriafol.



Tudur a Medi yn hapus eu byd



Nel Glyn yn rhoi cwtsh i'w hoen bach. Mi all bawb wneud efo cwtsh o bryd i'w gilydd!



Elain Davies yn gofalu am ei chwaer fach newydd! Llongyfarchiadau i chi Rhys a Bethan!




Elis a Cadi yn dangos eu gwerthfawrogiad i'n gweithwyr allweddol.




Noni Wyn yng nghanol tlysni'r Clychau'r Gôg

## CLWB 300

**Dyma restr o enillwyr Mai 2020:**

£50 - Nesta Williams, Cerist, Cwmllinau, Machynlleth.
£40 - John Ellis Jones, 2 Graig Fach, Machynlleth.
£30 - Myra Wigley Evans, Gwyneddfa, Glantwymyn, Machynlleth.
£20 - Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin, Aberystwyth.
£10 - Dawn Davies, Y Penrhos, Cemaes, Machynlleth.



## Cwis Chwaraeon

Does dim chwaraeon i adrodd amdanynt fis yma, felly be am gwis bach i basio pum munud?

1. Beth yw chwaraeon cenedlaethol Japan?
2. Sawl munud yw hyd gêm rygbi?
3. Ym mha wlad oedd y gemau olympaidd cyntaf?
4. Sawl chwaraewr sydd bob ochr i'r rhwyd mewn pêl-foli ar y traeth?
5. Sawl gornest gollodd Mohammed Ali yn ystod ei yrfa?
6. Ar ba rif mae chwaraewr yn dechrau mewn gêm o ddartiau?
7. Pwy oedd pencampwr y Tour de France o 1999 i 2005?
8. Pa bêl snwcer sy'n werth y mwyaf o bwyntiau?
9. Pa wlad oedd y diwethaf i ennill twrnamaint y pum gwlad, cyn iddo newid yn chwe gwlad?
10. Sawl gwaith mae Michael Schumacher wedi bod yn bencampwr F1?



## Machynlleth

Gail Jenkins, Caffi Alys
01654703336 / caffialys@yahoo.com

**Mairlynne Davies**
Wrth baratoi'r rhifyn hwn, daeth newyddion trist am farwolaeth Mairlynne Davies, un o gyn-olygyddion y papur. Cydymdeimlwn â John, Huw a'r teulu a chofiwn amdanynt yn eu galar. Bydd teyrnged deilwng yn ymddangos yn rhifyn mis Mehefin.

**Cofiwch os ydych am brintio'r Blewyn o Obaith, eich bod yn dewis yr opsiwn 'portrait' ac yn ticio'r blwch 'fit' fel ei fod yn ymddangos yn gyfan ar bapur A4.**

## Corris Uchaf

Ruth Selman
ruthselman57@gmail.com

**Gerddi cymunedol Corris Uchaf**
Mae cryn dipyn o amser wedi pasio ers i'r bwystfil o'r dwyrain ddinistrio gerddi ein cymuned. Yn anffodus, lladdwyd banc o eithin prydferth gan y stormydd gaeafol a gwasgarwyd y brigau brau ar hyd y pentref. Er mwyn harddu'r banc unwaith eto aeth nifer o drigolion y pentref ati i amnewid yr eithin gyda blodau a phrysgwydd lluosflwydd a blynyddol. Erbyn hyn mae ffrwyth llafur y gwirfoddolwyr yn amlwg ac yn cael ei edmygu gan bawb. Diolch i'r rhai fu ynghlwm â'r prosiect, yn enwedig i Ian 'newydd' sy'n parhau i weithio'n ddiflino i sefydlu a chynnal y planhigion ar y banc.

Yn yr amgylchiadau anodd presennol mae'n drist bod y parc chwarae yn wag o blant. Er gwaethaf hynny mae modd cerdded ar gyrion y cae chwarae a mwynhau edrych ar y wledd o flodau gwyllt sy'n tyfu yno. Mae grŵp cymunedol Corris Uchaf wedi bod yn weithgar iawn dros y flwyddyn ddiwethaf yn trefnu a chynnal diwrnodau cymdeithasol i glirio a thacluso'r cae chwarae. Bu llwyth o bentrefwyr lleol yn weithgar iawn yn gwaredu'r chwyn, drysni a drain o'r safle a'i ail blannu gyda blodau gwyllt lluosflwydd. Roedd yn gyfle gwych i gymdeithasu, rhannu picnic a mwynhau glasiad neu ddau o win ar ddiwedd diwrnod prysur. Da iawn pawb! Edrychwn ymlaen yn fawr at y diwrnod pan fydd gatiau'r cae chwarae yn agored a bydd trigolion y pentref yn medru dod at ei gilydd i gymdeithasu unwaith yn rhagor.





**Ysbyty**
Da clywed bod Rhonwen Hough yn ôl adref ar ôl cyfnod byr yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i unrhyw un sydd yn yr ysbyty neu adref yn sâl ar hyn o bryd.

**Grŵp Cefnogi Covid-19**
Hoffwn, o waelod fy nghalon ddiolch i'r gweithwyr allweddol mae ein cymuned a bro yn dibynnu cymaint arnynt yn ystod cyfnod yr argyfwng iechyd presennol. Rhaid i mi ganmol hefyd yr ysbryd cymunedol sy'n amlwg yn ein plith a diolch i'r gwirfoddolwyr sydd wedi sefydlu grŵp cefnogi i helpu trigolion ein pentref yn y cyfnod heriol yma.

Yr wyf, fel nifer ar hyn o bryd yn cerdded fy milltir sgwâr yn ddyddiol gan ryfeddu ar yr arwyddion o gefnogaeth a welir yn y pentref. Does dim golygfa well nag enfys liwgar i godi'r galon ac yn wir dim sain gwell ar nos Iau na geiriau 'Calon Lân' yn cael ei ganu mewn unsain o ddrysau tai trigolion y pentref.










# Fy hoff olygfa


Un peth mae'r coronafeirws wedi'i wneud ydy gwneud i ni werthfawrogi ein bro a sylweddoli pa mor lwcus ydym o fyw yn y fro hon. Mae wedi rhoi cyfle i ni gael amser i fynd am dro a gweld y wlad ar ei gorau. Ac o fewn fy milltir sgwâr, dyma fy hoff olygfa i.



Aberhosan o Moel Fadian

Mae'r olygfa o gofeb Wynford Vaughan Thomas yn wych, ond mae'n werth gwneud yr ymdrech i gyrraedd copa Moel Fadian. Oddi yno cewch olygfeydd 360° gydag Aberhosan hyd at fynyddoedd Eryri o'ch blaen, yna topiau Llanbrynmair a Llandinam. Tu ôl i chi mae Llyn Glaslyn a mynyddoedd Pumlumon a gellir gweld cerrig cyfamod Owain Glyndŵr yn Hyddgen ar y drum. Mae'n olygfa werth ei gweld.

*Eirian Jones, Cefnrhosan*



Copa Moel Fadian gyda llyn Glaslyn a mynyddoedd Pumlumon yn y cefndir

Oes gennych chi ddarllenwyr luniau o'ch hoff olygfa neu'ch hoff le o fewn Bro Ddyfi? Anfonwch luniau atom, mae'r wlad ar ei gorau ar hyn o bryd felly braf fyddai gweld golygfeydd godidog Dyffryn Dyfi i godi'n calonnau tra rydym yn aros adref.

## Cyngor, Gwybodaeth, a Chefnogaeth

Mae Cyngor Canolbarth Cymru yma o hyd i'ch helpu a'ch cefnogi

Os oes angen cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth frys arnoch chi neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod, er bod y Ganolfan Gynghori ar gau ar gyfer apwyntiadau wyneb yn wyneb a sesiynau galw heibio oherwydd COVID-19, rydyn ni'n dal i allu'ch helpu yn ystod y cyfnod ansicr yma oherwydd mae rhai ohonom yn dal i weithio o gartref.

Gallwch gysylltu â ni trwy adael neges ffôn gan gynnwys eich manylion cyswllt ar 01654 700192 neu drwy anfon e-bost atom ar enquiries@advicemidwales.org.uk ac er y gallai fod ychydig o oedi cyn i chi dderbyn ymateb, byddwn yn gwneud ein gorau i ddod yn ôl atoch chi cyn gynted â phosib.

RYDYM YMA O HYD I CHI, EICH FFRINDIAU, A'CH TEULU

## Bontfaen ac Uwchygarreg

Miss Catrin Davies, Godre'r Graig
(01654 703226)
puddles3dragons@yahoo.co.uk

**Pen-blwydd arbennig**

Bu Ffion Henllan, Maureen Brynffynnon a Petra Dolgau yn dathlu pen-blwyddi arbennig yn ystod y mis, gobeithio i'r dair ohonoch fwynhau'r dathlu.

## Cemaes

Mrs Gill Jones, Brynmeurig
01650 511276
richardagill@live.co.uk

**Y Gwcw**

Mae'r gôg wedi bod yn brysur yn canu yn y coed derw gyferbyn â'r tŷ yma ym Mrynmeurig eto eleni. Ar 23 Ebrill y clywais hi gyntaf ond mae'n siŵr bod llawer ohonoch wedi'i chlywed hi o 'mlaen i.

**Newyddion da**

Llongyfarchiadau mawr i Howard a Margaret Butler, Gorwel Deg ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch fach i Iwan ac Elin yng Nghaerdydd a'i henw ydy Greta.

**Marwolaeth**

Trist oedd clywed am farwolaeth un o gyn drigolion Cemaes, sef Stan Price, yng nghartref y Rallt, Trallwng yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â theulu Penybryn yn dilyn marwolaeth ewythr Aled, Richard Davies, yn Uned Twymyn, Machynlleth.

## Abercegir

Ann Fychan
01650 511212 / annfychan@aol.com

**Croeso 'Nôl**

Croeso gartref i Gruffudd, Cwmllywi Uchaf. Bu'n ddigon ffodus i gael sedd ar awyren o Seland Newydd ar ddechrau'r cyfyngiadau. Mae'n anodd dweud sut bydd pethau erbyn mis Medi pan fydd yn amser dychwelyd i'w swydd yno. Efallai y byddwn yn ôl mewn rhyw fath o normalrwydd yn hir cyn hynny, pwy a ŵyr.

**Cyfnod Newydd**

Bellach, mae Mali wedi cwblhau ei chwrs yn Abertawe ac wedi dechrau ar ei swydd newydd yn Ysbyty Singleton, lle bydd yn gweithio yn Uned Gofal Dwys yr Adran neo-natal. Dymunwn yn dda iti yn dy waith, Mali.

## Glantwymyn

Heledd Glyn Jones, Cynefin
heleddg@hotmail.com / 07837 781795

**Cydymdeimlad**
Ar y 15fed o fis Ebrill bu farw Edwina Lewis, Bryn Hyfryd - gynt o'r Grofft - yn 91 oed. Cafwyd angladd preifat yng Nghwmllinau. Rydym oll yn cydymdeimlo gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

**Taid a Nain**
Llongyfarchiadau mawr i Kevin a Christine Hamilton ar ddod yn Nain a Thaid! Croeso cynnes i Mia Vivian Hamilton a gafodd ei geni yn Takapuna, Seland Newydd, yn ferch i Aled Hamilton a Jessica Fincher. Pob hwyl ar y magu, dwi'n siŵr y bydd Mia yn cael ei sbwylio'n rhacs gan Nain a Taid Glantwymyn!



menter iaith MALDWYN

### SWYDDFA MENTER MALDWYN
Mae staff y Fenter yn parhau i weithio o adre ar hyn o bryd, gyda lleoliad ein swyddfa yn amrywio'n ddyddiol o'r garafán, i'r patio, i'r soffa (ac ambell dro o'r gwely!).

Mae'r Mentrau Iaith ar draws Cymru a nifer o fudiadau eraill yn creu llwyth o adnoddau, cwisiau, gweithgareddau, fideos cyfrwng Cymraeg ar lein i bobl eu gwneud adref. Mae nifer o'r rhain i'w gweld ar dudalen Facebook "Gweithgareddau Cymraeg Gartref". Ymunwch â'r dudalen er mwyn dod o hyd i weithgaredd fydd o ddiddordeb i chi.

Mae tudalen Facebook "Arwyddion Codi Calon" hefyd yn werth ei weld os am donig o lawenydd. Mae'n llawn lluniau o blant ac oedolion ar draws Cymru sydd wedi bod yn brysur yn creu arwyddion Cymraeg lliwgar i osod yn ei ffenestri neu tu allan i'w tai i godi calon eu cymdogion. Beth am fynd ati i greu eich arwydd eich hunain?!

### GŴYL CERDD DANT BRO NANSI
Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud eto ynglŷn â gohirio'r Ŵyl Gerdd Dant. Mae gan y pwyllgor Gwaith ein cyfarfod cyntaf ar Zoom wythnos nesaf! Gan obeithio y bydd pawb wedi dod i ddeall y dechnoleg, gobeithiwn allu adrodd yn ôl i chi ar unrhyw benderfyniad erbyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Rydym wedi clywed am ambell i Gerdd Dantiwr ar draws Cymru sydd yn defnyddio'r amser yma dan warchae'r lockdown i fynd ati i osod Cerdd Dant ar gyfer yr ŵyl!

### IAITH AR DAITH
Braf oedd gweld golygfeydd hyfryd o Faldwyn ar raglen ddiweddar S4C, Iaith ar Daith. Roedd Carol Vorderman wedi cael hwyl dda ar ddysgu'r Gymraeg ac wedi llwyddo i dywys criw mawr o ymwelwyr o amgylch Gregynog yn hwyliog iawn. Os na welsoch chi'r rhaglen cofiwch fod modd mynd yn ôl i ail-wylio trwy wefan S4C Clic neu BBC iPlayer.

## Clwb Gwragedd Fferm

Wrth inni adael y Ship ar y 9fed Fawrth, ar ôl dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Bethan James, pwy fyddai'n meddwl na fyddai modd inni gwrdd wedyn am fisoedd oherwydd y Coronafeirws felltith yma! Colli nifer o nosweithiau difyr oedd wedi eu trefnu, a cholli'r trip! Dyma drasiedi arall.

Fydd yna ddim trip eleni er fod Anne wedi bod wrthi'n trefnu ar gyfer y daith. Ond, mae yna un cysur – mae'r holl drefniadau'n barod ar gyfer 2021!

Does neb yn gwybod pryd y cawn ni eto gwrdd – byw mewn gobaith at yr ail nos Lun ym Medi. Tan hynny, mwynhewch y ffermio (a'r garddio) a chadwch yn saff.


Cofion atoch i gyd.

# Cylch Meithrin a Ti a Fi Glantwymyn

Mae plant y Cylch Meithrin yn parhau i fod yn brysur iawn gyda'u gweithgareddau amrywiol adref. Mae grŵp arbennig y cylch ar y cyfryngau cymdeithasol yn llawn o'u hanesion a'u lluniau. Mae rhai wedi bod yn gwneud jig-sô's, creu gwesty i bryfaid genwair, gwehyddu gyda blodau a phlanhigion, helpu mam a dad i beintio ac mae Mabon wedi bod yn casglu sbwriel ar ochr y ffordd - chwarae teg i ti, Mabon.

Gosododd Anti Sioned dasg i'r plant i greu offeryn cerdd. Wel wir, cafwyd offerynnau o bob math; o ddrymiau, gitar, maracas ac roedd Ivy wedi gwneud seiloffôn anferth yn nghanol y coed – gwych. Gyrrwyd fideos o'r plant yn chwarae eu hofferynnau ac yn canu eu hoff hwiangerdd.

Roedd Martin, gŵr Anti Sioned, am i'r plant yrru lluniau enfysau lliwgar neu bobl sy'n ein helpu i'w gosod ar ddrws yr orsaf ambiwlans. Cafwyd ymateb gwych ac erbyn hyn mae Martin wedi llwyddo i addurno'r drws gyda'r lluniau hardd i godi calon ac i ddiolch i'r gweithwyr gwahanol am eu gwaith caled. Diolch i chi blant, a pharhewch i yrru'ch lluniau a'ch hanesion draw i'r grŵp.







# Cyngor Cymuned Glantwymyn

Daeth un-ar-ddeg o gynghorwyr ynghyd i gyfarfod ar Fawrth 3ydd 2020.
Estynnwyd pob cydymdeimlad at y Cynghorydd Gwyn Jones a'r teulu yn dilyn eu colled ddiweddar.

**Materion yn ymwneud â ffyrdd**

- Cwmllinau - Canghennau wrth y bont – cafwyd ymateb gan Traffig Cymru ar ôl i gynrychiolwyr gyfarfod â'r Cynghorydd Deryck Lewis. Cytunwyd gan fod yno berygl i ddefnyddwyr ffyrdd, ond ni fydd unrhyw weithredu gan nad yw'r coed yn ateb y gofynion ar gyfer yr angen i'w tocio. Mynegwyd siom a nodir bod y cynghorwyr wedi gwneud eu gorau glas i ddatrys y sefyllfa. Mae'n bosib y bydd gweithredu mewn perthynas â llwybr troed diogel yn y lleoliad
- Bydd y coed a syrthiwyd ger Kennels Dorcorslwyn yn cael eu trin.
- Cyfyngder cyflymder Cemaes a Chwmllinau (19:115:8) Ni fydd unrhyw weithredu gan nad oes data digonol am achosion o ddamweiniau i gefnogi'r cais. Mynegwyd siom a rhwystredigaeth nad oes modd bod yn rhagweithiol er lles y cyhoedd,
- Mae'r canghennau yn Abercegir wedi cael eu torri.
- Pont ar Ddyfi newydd (19:113:1) – Derbyniwyd ymateb gan y Llywodraeth yn nodi bod nifer o gyrff yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau ac mai MWNTRA fydd yn cynnal a chadw'r pwmp o dan y bont.
- Cyfyngder cyflymdra yng Nghemaes a Chwmlline. (19:115:8) Mynegwyd pryder nad yw'r cyfyngder cyflymdra'n ddigonol. Penderfynwyd cysylltu â Ken Skates i ofyn am arwyddion cyfyngder cyflymdra 30mya.
- Dŵr yn cronni wrth 'grating' wedi suddo ger Rhosawel, Cwmlline – Bydd Cyngor Sir Powys yn gweithredu.
- Mynedfa Glantwymyn - cais am arwydd ildio a marcio'r ffordd - Ni fydd Traffig Cymru'n yn gwneud dim am y broblem gan mai Cyngor Sir Powys sy'n gyfrifol am hwn. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Sir Powys i adrodd hyn gan bwysleisio nad yw'r Cynghorwyr yn fodlon gyda honiad Cyngor Sir Powys bod cyrbau yn ddigonol i ddynodi hawliau ildio ar y ffordd.
- Bydd cynrychiolydd o'r Adran Tai yn ymweld â'r byngalos ger Parc Sisial Afon, Cemaes i ystyried a oes modd gosod cerrig ar gyfer parcio.
- Carafán mewn 'layby' ger Mathafarn (19:105:1) - erbyn hyn mae wedi cael ei symud.
- Mae'r llwybr troed rhwng Goleufryn a Hafod, Glantwymyn wedi cael ei drwsio.

Derbyniwyd llythyr gan Craig Williams AS Drefaldwyn yn cynnig cefnogaeth i'r Cyngor a nodi y byddai'n hapus i gwrdd â'r Cyngor ac yn estyn gwahoddiad i ymweld â'r Tŷ Cyffredin.

19:123:4: Cafwyd ymateb gan Bwrdd Iechyd Powys yn ymateb i bryderon y Cyngor a anfonwyd ym mis Rhagfyr. Roedd y Cynghorwyr yn anfodlon iawn gan na gynigiwyd unrhyw ddatrysiadau mewn gwirionedd. Nodwyd nad cwyno er mwyn cwyno mae'r Cyngor ond gwneud er mwyn trafod a gwella gwasanaeth er lles y cyhoedd. Nodwyd anfodlonrwydd arbennig ynglŷn â'r ymateb i'r broblem yn ymwneud â pharcio a mynegwyd pryder bod aelod o staff a hyfforddwyd fel parafeddyg mewn nifer o achosion yn gwneud gwaith meddyg. Nodwyd hefyd nad oedd y broses gwyno'n hawdd nac yn amlwg. Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd Bwrdd Iechyd Hyfforddi Powys o ran rheoli'r practis a'r meddygon yn effeithiol er budd y cyhoedd. Bydd cynrychiolwyr CCG yn codi'r pryderon uchod yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cleifion a bydd y Cyngor yn cysylltu eto â Russell George A.S. i geisio gwella'r sefyllfa.

Cafwyd adroddiad gan Aled Griffiths ar ran Llywodraethwyr y Ffederasiwn. Nodwyd bod y sefyllfa'n iawn ar hyn o bryd o ran cyllid, er y nodwyd y gallai hynny newid.

Nodwyd bod prysurdeb mewn perthynas ag Eisteddfod yr Urdd a dymunwyd pob llwyddiant i'r digwyddiad.

Nododd Elwyn Vaughan ar ran y Cyngor Sir y bydd Treth y Cyngor yn codi o 4.8%

**Materion Eraill**

Nodwyd gyda diolch bod y Rhwydwaith Rheilffyrdd wedi tocio'r coed ger y rheilffordd yng Nglantwymyn.
Cafwyd nifer helaeth o broblemau'n ymwneud â dŵr – Pwysleisiwyd nad oherwydd effeithiau llifogydd diweddar mae'r problemau wedi codi ond yn hytrach o ganlyniad i ddiffyg cynnal a chadw effeithiol dros y cyfnodau blaenorol.

- Melin Eithin. Mae cylfatiau wedi'u blocio felly mae dŵr o gyfeiriad Bryn melyn yn cronni y tu allan i'r tŷ o ganlyniad i'r Cyngor adael ysbwriel ar ôl brwsio'r ffyrdd.
- Tŷ Nant - Mae dŵr yn crynhoi ger Cwmberllan, Nant y Gaseg a Chefn Coch ac yn creu problemau mawr yn adeiladau fferm Tŷ Nant yn enwedig yn yr adeiladau fferm gan gynnwys siediau defaid.
- Tyllau yn y ffordd a tharmac wedi codi wrth gornel Bryn Gronwy
- Gratings/cylfatiau wedi blocio rhwng Gwernstablau a Llanwrin
- Problem gyda dŵr ar y ffordd ger Aberffryddlan gyda'r dŵr yn rhedeg i lawr wrth ochr y ffordd am y capel.
- Problem gyda'r dŵr ger Hendreseifion a Glanfechan oedd mor ddifrifol ar adegau fel bod rhaid i rieni gludo plant i'r ysgol am fod y bws wedi methu.
- Tipio anghyfreithlon yn y 'layby' ar dop y Grofft
- Ysbwriel yn cael ei adael yn y 'layby' ger Dorcorslwyn
- Baw cŵn yn cael ei gadael a ger bont Rhydygwial, Cemaes – penderfynwyd gofyn eto i Gyngor Sir Powys am fin ysbwriel.
- Dŵr yn cronni ar y ffordd gefn i Bantberthog. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio yno ond heb orffen y gwaith.
- Pont wrth fynedfa Canolfan y Dechnoleg Amgen wedi'i blocio ers tro a ddaeth yn amlwg yn ystod y glaw trwm yn ddiweddar.
- 19:115:2: Cofebion Rhyfel yng Nghemaes a Chwmllinau. Mae ymholiadau ar y gweill mewn perthynas â chymorth ariannol gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel a'r Comisiwn Beddau Rhyfel i adfer y cofebion. Diolch i Nesta Williams am y lluniau a'r wybodaeth am Hugh Owen.

**Blewyn Glas**
cysylltwch â ni
**papurblewynglas@gmail.com**

## Llythyrwyr - Galw Am Wirfoddolwyr - Prosiect 'Pen Pal'

Mae Cyswllt Celf yn chwilio am wirfoddolwyr i ysgrifennu llythyrau at unigolion sy'n byw yng Nghartrefi Gofal Gogledd Powys. Gyda'ch cymorth, eich agwedd bositif, ac ychydig o'ch amser, gallwn greu prosiect gwerth chweil. Bydd eich llythyrau'n diddanu'r preswylwyr, yn lle poeni am yr hyn sy'n digwydd yn y wlad ar hyn o bryd. Dychmygwch eich bod yn creu cyfle i unigolion weld byd hollol wahanol am ychydig. Oes gennych chi neu rywun rydych yn ei adnabod ychydig o amser i'n helpu?

Rydem hefyd yn gofyn i blant a phobl ifanc greu gwaith celf ar gyfer gweithwyr a phreswylwyr y cartrefi gofal. Rhywbeth lliwgar i addurno'r waliau a chodi hwyliau. Mae llawer iawn o enfysau ar hyd a lled yr ardal - tybed pa destunau eraill sy'n addas i'w paentio i ddathlu llawenydd a lliwiau? Arhoswn yn eiddgar i weld eich holl syniadau!

1. Cysylltwch â ni, er mwyn inni wybod pryd rydych ar gael, a'r hyn byddech yn hoffi ei anfon atom
2. Byddwn yn cysylltu â Chartrefi Gofal Gogledd Powys i'ch paru gydag un o'r preswylwyr
3. Ar ôl cwblhau'r broses paru, gallwn ddechrau llythyru!

Anfonwch e-bost at sioned@artsconnection.org.uk am fwy o fanylion. Oherwydd COVID-19, bydd gofyn i'r holl lythyrau a gweithiau celf fod mewn fformat digidol.

### Ydych chi am anfon cyfarchion neu ddiolch i rywun arbennig?

Nid ydym yn cynnwys dyddiadur yn y papur ar hyn o bryd, ond mae hwn yn gyfnod ble mae'r gymuned wir yn tynnu at ei gilydd mewn sawl ffordd bositif. Felly os hoffech anfon neges o ddiolch i unrhyw un, neu gyfarchion ar achlysur arbennig na ellir ei ddathlu ar hyn o bryd, yna mae croeso i chi wneud hynny. Yn arferol, codir tâl o £5 am ddiolchiadau, gyda chyfraniadau mwy yn cael eu nodi yn y rhestr rhoddion, ond ar yr achlysur yma, mae croeso chi wneud hyn yn rhad ac am ddim. Anfonwch eich negeseuon at Siân Evans, Erw'r Llan, Penegoes, Machynlleth (01654 703603) neu at sianmwyars@outlook.com

# Parhad BYD NATUR gydag Elfyn Pugh


Yr ydym yn ffodus yn Nyffryn Dyfi fod y rhan fwyaf ohonom yn byw o fewn tafliad carreg at nant neu afon. Wrth fynd am dro ger nant neu yn fwyaf arbennig ger yr afon Ddyfi chwiliwch am liw glas llachar Glas y Dorlan. Chwiliwch hefyd am gynffon hir y Siglen Lwyd (Grey Wagtail) neu efallai y gwelwch Bronwen y Dŵr (Dipper). Dyma'r unig aderyn cân dyfrol. Sylwch arno yn eistedd ar ben craig ger y dŵr yn edrych yn smart iawn yn ei siaced dycsido ddu, gwasgod winau a bib gwyn gan siglo i fyny ac i lawr ar ei goesau byr fel pe bai yn moesymgrymu i chi. Y mae'n aderyn cyfareddol sy'n chwilota am ei fwyd, larfa y pry gwellt, ar hyd gwely afon neu nant. Mae'r larfa yma yn amddiffyn ei hunan drwy adeiladu mosaic o gerrig bychain oddi amgylch ei gorff meddal. Felly mae Bronwen y Dŵr yn gafael ynddo, ei roi ar garreg neu graig gyfagos a'i daro gyda'i phîg nes chwalu'r amddiffynfa a chael gafael ar y larfa. Y maent yn nythu yn gynnar yn y tymor ac erbyn hyn mae'n siŵr bod yna gywion bach wedi deor.

Wrth gerdded ar lan yr afon efallai y cewch gipolwg ar Ddwrgi (Otter). Ond os y gwêl o chi yn gynta' yna fe ddychwel i'r dŵr yn dawel a llechwraidd gan adael ond ychydig o swigod ar ei ôl. Mae'r swigod yn cael eu creu wrth i'r aer sy' wedi ei ddal yn yr haen is o ffwr, sydd yn ei gadw yn gynnes yn y dŵr, gael ei ollwng.

Yn eich gardd neu ar ochr y ffordd sylwch ar ieir bach yr haf fel y glöyn trilliw (tortoiseshell), yr iâr fach lygadog (peacock) a'r gacynen bwm (bumblebee) yn prysur fwydo ar flodau melyn dant y llew. Y mae'r blodyn yma'n ffynhonnell bwyd pwysig iawn i bryfetach, felly peidiwch â'i chwistrellu â phla laddwr.



Gwybedog Brith – Ceiliog - Caegogrydd



Gwybedog Brith - Iâr - Caegogrydd

Y Gwybedog Brith (Pied Flycatcher) yw fy hoff aderyn. Aderyn du a gwyn gyda 2 smotyn gwyn ar ei dalcen ydy'r gwryw. Brown golau ydy'r fenyw. Yn cyrraedd yma ar ddechrau Ebrill, maent yn un o adar arbennig ein coedwigoedd Cymreig. Yn barod i nythu mewn bocs adar, mae'n aderyn eithaf dof. Maent yn treulio'r gaeaf yn fforestydd glaw trofannol Gorllewin Affrica lle does fawr o gysylltiad â dyn, efallai dyma pam eu bod mor ddof. Byddant yn eistedd ar gangen, ffens neu bolyn ffens gan wibio i ddal pryfyn cyn dychwelyd yn ôl i eistedd tan y tro nesa. Mae'n siŵr mai dyma darddiad ei enwi yn Gwybedog Brith.

Ar y Ffriddoedd lle mae rhedyn ac eithin yn tyfu chwiliwch am Melyn yr Eithin (Yellowhammer), aderyn ag iddo liw llachar melyn a brown. Disgrifir cân y gwryw weithiau fel 'tamaid o fara a DIM caws'! Fe adawa i chi benderfynu os ydy hynny yn gywir! Dyma aderyn arall sydd yn prinhau ond mae nifer dda i'w gweld yn yr ardal yma.

Felly, dyna ni, mae toreth o fywyd gwyllt o'n cwmpas os ydech chi yn gwybod beth a lle i chwilio. Oes, y mae angen amser ac amynedd ond, y mae yna foddhad mawr i'w gael hefyd.

Does neb ohonom yn sicr pa mor hir y bydd rhaid aros adref, ond fe allwn i gyd, yn ystod y cyfnod anodd yma dderbyn cysur yn gwylio natur. Gall natur ein hymdawelu a'n hysbrydoli ar yr un pryd. Manteisiwch ar y cyfnod yma i ennyn diddordeb plant mewn natur. Rydym mor ffodus o fyw yn yr ardal hon.

Os am fwy o wybodaeth y mae dau lyfr sy' werth eu cael. 'Llyfr Adar Cymru ac Ewrop' Iolo Williams a 'Blodau Gwyllt Cymru ac Ynysoedd Prydain' gan Bethan Wyn Jones. Cyhoeddir y ddau gan Wasg Carreg Gwalch.

# Blog: Cael fy addysgu adref

## Gan Efa Bleddyn Jones

Ers yr oeddwn i yn bedair oed, dwi wedi cael fy addysgu yn yr ysgol sy'n golygu fy mod i wedi deffro a chodi'n gynnar ers bron i ddeng mlynedd gan fy mod i yn cael fy mhen-blwydd mis nesa yn 14! Mae gwahaniaeth rhwng cael fy addysgu adref a chael dy addysgu yn yr ysgol;

1. Mae rheolaeth a disgyblaeth athrawon yn fy nghadw'n llonydd ac yn brysur i gyflawni tasgau gosodedig ar bapur, lle rydw i adre yn derbyn tasgau neu daflenni gwaith drwy'r wefan 'Teams'.

2. Wrth fynd i'r ysgol, rydw i'n cymdeithasu wrth siarad ag eraill wyneb i wyneb lle dwi adre yn gorfod cymdeithasu drwy gyfryngau cymdeithasol.

3. Pan dwi adre, fel rydw i rŵan, dwi'n cael bwyta ac yfed unrhyw beth, unrhyw bryd yn ystod y dydd heb fod yn llwgu yn ystod gwers Mathemateg lle roeddwn i yn yr ysgol yn gorfod cadw llygad ar y cloc i weld pryd y byddwn i yn cael bwyta nesa.

Tra bod athrawes neu athro fel arfer yn cadw llygad arnaf yn ystod gwers, mae'n newid oherwydd pan dwi adre, fy adlewyrchiad yn y drych sy'n prysur symud sy'n golygu fy mod i angen disgyblu fy hun. Felly i wneud hynny dwi'n:

1\. Gosod larwm am 8:24 bob bore (awr yn fwy o gwsg tra bod yr ysgol wedi cau)

1\. Gwisgo a gwneud fy ngwallt fel taswn i'n mynd i'r ysgol; nadw, dwi ddim yn gwisgo crys a thei a'r iwnifform ysgol adre siŵr!

1\. Ysgrifennu rhestr 'tw-dw' lle dwi wedi gorffen popeth sydd gen i i'w wneud yn ystod y diwrnod hwnnw erbyn 14:00 (dwi'n 'sgwennu hwn rwan am 9:14yb)

Ma' rhaid i mi ddweud, er nad oeddwn i'n coelio mod i, ond mae gen i hiraeth am yr ysgol. Hiraeth am be? Wel... fy ffrindiau ffeind, yr athrawon doniol, llym ond yn fwy na dim y rwtin o'n i'n meddwl oedd yn ofnadwy 6 mis yn ôl pan on i'n cael fy ngorfodi i dreulio fy amser mewn pedair gwers o Saesneg mewn un diwrnod!

Tybed pryd ga'i weld y waliau lliwgar, y dosbarthiadau swnllyd sydd wedi bod yn swrth ac yn llonydd - bydd rhaid pendroni 'am fisoedd' yn ôl Boris Johnson, lle diflannon ni mor sydyn! A fy llyfr llyfrgell! Gobeithio ga'i ddim ffein a hithau wedi bod ar locdown, a'r dyddiad ar y llyfr yn prysur agosáu! Mae'r llyfr wedi hen basio'r dyddiad yn barod ar y deunawfed o Ragfyr!!! Cywilydd... bydd misoedd erbyn i'r llyfrgell ei dderbyn yn ei ôl!!

Ar ben hynny, mae'r busnes 'Teams' 'ma yn ddigon i fy ngyrru'n bananas, wir i chi wrth i negeseuon disgyblion blwyddyn 7 lenwi fy sgrin efo pethau yn dweud "Dydw i ddim yn gwybod be i'w neud" neu "Be dwi fod i'w neud?" er bod yr athrawes wedi egluro ganwaith a 'mod i, sydd ddim yn eu dosbarth nhw, yn gwybod be i neud!! Mae isho gras. Hefyd, ma' 'na rywbeth am gael y gwaith o dy flaen ar bapur does, lle 'dach chi'n gallu darllen a deall y gwaith heb i'ch 'screen time' ar y ffôn neidio uwchben dy gyfartaledd!!

Gawn ni weld os fydd y feirws 'ma 'di ildio erbyn yr haf; fy hoff dymor! Dwi'n deutha' chi rŵan, os bydda i a phawb arall yn sownd yn ein tai wedi diflasu ar orfod aros dan do drwy'r dydd a hithau'n gynhesach na thu mewn, tu allan, fydd na le 'ma!!



# Cofio 'nôl – 8fed o Fai 1945

*Dyma ddarn ysgrifennodd John Price, Machynlleth ar gyfer ei wyresau ar Fai'r 8fed eleni. Diolch yn fawr iawn ichi am rannu'ch atgofion o'r cyfnod gyda darllenwyr 'Blewyn o Obaith.*

**Atgofion Taid am "VE day" – 8fed o Fai 1945 -75 mlynedd yn ôl**

Ar yr 8fed o Fai 1945 roeddwn i'n aros efo fy nhaid a nain yn Milton, Stoke-on-Trent. Fanno gafodd mam ei magu Trent View, Coronation Road; rhyw 6 i 8 tŷ, caeau i'r blaen a thu ól y tai ac ymlaen o'r tŷ olaf i ben y stryd, allech chi ddim dreifio car drwodd ond mi roedd modd cerdded a seiclo. Ar ben y ffordd roedd siop fach ac o fanno fydda ni'n dal bws i fynd i Hanley; croesi'r ffordd a cherdded ymlaen ychydig at y pwll glo. Hefyd ar waelod y cae o flaen y tŷ yr oedd camlas,



a sawl cwch camlas yn cael ei dynnu gan geffyl yn cario glo o'r pwll; cario tunelli o lo. Roedd gan taid randir (allotment) yn y cae. Erbyn heddiw mae'r ffordd yn agored bob pen, wedi'i thario ac mae stad o dai o gwmpas ym mhobman.

Mi faswn i yn 6 oed mewn 2 fis.

Cof sydd gen i ydi Uncle Len yn dod adre o'r gwaith dur lle'r oedd o yn gweithio (mi roedd o yn *essential occupation* - felly ddim yn rhyfela, ond yn troi dur allan i wneud peiriannau rhyfel a.y.b.) a chael dwy styllan o bren i beintio efo paent lliw arian a rhoi lampau arnynt, bylbiau a chysylltu â cyflenwad trydan o'r tŷ. Tan yr 8fed. Wedi iddi nosi roedd yn "black out". Golyga hyn nad oedd yna olau i'w weld yn unman. Y gwir oedd, tasa yna olau i weld o ffenest y tŷ, byddai plismon yna yn syth ac mi fasach mewn trwbl. Ond y noson yma dyma Uncle Len yn codi y 'V' fawr yma yn yr ardd ffrynt ac yn ei goleuo. Fo oedd y cynta', yna mewn ychydig gwelwyd sawl V wedi goleuo dros yr ardal.

Bosib ar y diwrnod canlynol roedd te parti mawr yn y stryd. Pawb yn cario byrddau a chadeiriau a'u gosod mewn un rhes yn y ffordd, bwyd o pob math yn cael eu pentyrru ar y byrddau – cofiwch roedd pob peth ar *ration*, ond hyn a hyn o fwyd roedd pawb yn 'i gael ac roedd rhaid defnyddio 'cŵpons' i gael petha fel cig, menyn a siwgr. Roedd bwyd wedi'u dogni - o ble ddoth yr holl ddanteithion, 'sgen i ddim syniad ond fe roedd yna jeli a chacennau o bob math! Gwledd o fwyd i hogyn bach bron yn 6 oed a llawer o hwyl.

Wedyn fel roedd hi yn tywyllu, sioe o betha anhygoel, tân gwyllt a rocedi. Doeddwn i erioed wedi gweld y fath beth ac o ble daethant, dyn a ŵyr, mae'n debyg fod rhyw deulu wedi cadw nhw yn saff ers cyn y rhyfel.

A dyna i chi y 'VE day' fel dwi'n ei gofio, cof hogyn bron yn 6 oed.

# Diolch, Tŷ Cemaes!







Ffenestri lliwgar Tŷ Cemaes wedi'u haddurno gydag addurniadau gan blant a phobl yr ardal.

# Cwis Emojis

**Beth am roi cynnig ar y ddau gwis bach hwyliog yma? Mae'r 'emojis' (y lluniau bach!) gyda'i gilydd yn llunio enw lle ym Maldwyn e.e. 1. Carreg Hwfa neu yn y cwis arall, idiom neu ddihareb u e.e. 1. Bwrw hen wragedd a ffyn.**
**Diolch i Fenter Maldwyn am gael benthyg y ddau gwis yma, a phob lwc! Mae'r atebion ar y dudalen ôl!**



# Lansio Rhaglen Cefnogi'r Galon, y Meddwl a'r Corff ar-lein i helpu pobl yn y Canolbarth sy'n hunan-ynysu




http://www.coedlleol.org.uk/heart-mind-body-support/

Mae'r wythnosau diwethaf wedi dod â sawl her i bobl leol, o newidiadau mawr a chynyrfiadau yn ein bywydau gwaith i fethu â gweld ffrindiau a theulu - mae anawsterau hunan-wahanu a phellter cymdeithasol yn niferus ac amrywiol. Wrth i arferion bywyd beunyddiol gael eu troi yn ben i waered, mae pryderon hefyd wedi dod i'r blaen o gwmpas siopa, yn enwedig yn sgil prynu panig yn ddiweddar. Mae llawer ohonom ni'n teimlo'n fregus ac fel petaen ni wedi colli rheolaeth ar ein bywydau ein hunain.

Ond ar y llaw arall, gall yr argyfwng hwn roi cyfle i'r rhai sy'n sownd gartref i roi arferion newydd ar waith, i sefydlu arferion sydd o fudd i'n hiechyd a'n lles. Gyda hyn mewn golwg, ac er mwyn cefnogi preswylwyr yn Nyffryn Dyfi a thu hwnt, mae grŵp o ymarferwyr iechyd a lles Machynlleth wedi sefydlu Cymorth Corff Meddwl a Chalon.

http://www.coedlleol.org.uk/heart-mind-body-support/

Yn gweithio mewn partneriaeth â Coed Lleol, Ecodyfi, a Machynlleth Coronavirus Community Response (MCCR), mae'r grŵp am gynnig dau wasanaeth ar gyfer y gymuned leol.

Y cyntaf yw amserlen wythnosol o ddosbarthiadau ar-lein am ddim gyda hwyluswyr proffesiynol a chymunedol o Fachynlleth a'r ardal gyfagos. Mae'r sesiynau byw hyn yn cynnwys ioga, qigong, ffitrwydd, dawns, myfyrio, rhannu, canu, grwpiau darllen, ymarfer ysgrifennu a llawer mwy.

Yn ol artist lleol, Julia Wilson: "Dyma un o'r pethau gorau i ddigwydd i mi yn ystod y cyfnod cloi lawr hwn. Rwy'n teimlo cymaint o gysylltiad â phobl eraill, rwy'n gweld eu hwynebau a gallwn siarad â nhw, chwerthin, myfyrio a rhannu straeon gyda nhw. "

Yr ail wasanaeth yw gwasanaeth gwrando a chysur un i un i'r rhai sydd eisiau rhywfaint o gefnogaeth neu sgwrs gyfeillgar. Os yw hyn o ddiddordeb, cysylltwch â'r prif grŵp YGCM i gysylltu â gwirfoddolwr hyfforddedig.
Ffôn: 01654 370 002 (9 am-5pm) E-bost: help@machynllethsupport.org

Dywedodd Dr Julia Wallond, meddyg teulu yn Iechyd Dyfi, Machynlleth: "Bydd hyn wir yn helpu i gefnogi iechyd corfforol a lles meddyliol ein cymuned yn ystod yr amseroedd anodd hyn o bellter cymdeithasol a 'chloi i lawr'. Mae pwysigrwydd cysylltiad cymdeithasol wedi'i sefydlu'n dda a bydd y gweithgareddau y mae HMB yn eu cynnig yn gwella'r budd i iechyd a lles. Mae'n cael ei redeg gan hwyluswyr profiadol mewn modd proffesiynol ac mae gen i hyder ei fod yn cynnig gwasanaeth o safon."

Dywedodd Cydlynydd Corff, Meddwl a Chalon Jess Herman, sydd hefyd yn cynnig sesiynau ioga a ffitrwydd hyn: "Cyn bod rhaid i ni 'gloi i lawr', rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i greu Corff, Meddwl a Chalon. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd ar-lein, rhai ohonom byth wedi cyfarfod wyneb yn wyneb, er mwyn cydlynu'r prosiect hwn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y galon, tra hefyd yn creu lle diogel i hwyluswyr a chyfranogwyr. "

Felly os ydych chi'n ffeindio hunan-wahaniaethu a phellter cymdeithasol yn heriol, yn teimlo'n unig, yn bryderus neu'n rhwystredig, cysylltwch â ni neu edrychwch ar yr amserlen - efallai bod rhywbeth sy'n dal eich llygaid, rhywbeth a allai arwain at ddiddordeb neu weithgaredd newydd sbon i chi...

Gwefan: http://www.coedlleol.org.uk/heart-mind-body-support/
Ffôn: 01654 370 002 (9yb-5yn)
Ebost: help@machynllethsupport.org

## Derwenlas a Glaspwll

Mrs Bethan Ingram, 01654 703468 / bethlli@aol.com

**Priodas Ddiemwnt**
Dyma lun o Hugh ac Ann Jones, Maestyrnol (Glanmerin gynt) ar ddydd eu priodas yng Nghapel y Graig, Stae ar 21 Mai 1960. Llongyfarchiadau ar eich priodas ddiemwnt a gobeithio gewch chi barti cyn bo hir!



**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu Cynffyrch a Morben Mawr, wedi iddynt golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid annwyl, Willie Pughe, Caeadda gynt. Anfonwn ein cofion atoch i gyd fel teulu yn eich colled.

## Aberllefenni

Mrs Nia Edwards, Y Plas 01654 761687 / mamaplas@hotmail.com

**Llongyfarchiadau**
Braf yw anfon ein cyfarchion at Sara Lewis, Glanyrafon, sydd yn Nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, sef Osian Wyn, i Garry a'i wraig, Caryl yn Llanilar.

Dathlodd Malachai Taylor ei ben-blwdd yn un ar hugain y mis hwn. Dymunwn y gorau wrth iddo barhau â'i astudiaethau yng Nghaerdydd.

# Ble maen nhw rŵan?

## Magi Vaughan (Dolcorslwyn gynt)

I rheiny ohonoch sydd ddim yn fy adnabod, fy enw yw Magi Vaughan, ac rwy'n wreiddiol o fferm Dolcorslwyn, Aberangell. Teitl fy swydd yw Cynllunydd Colur a Gwallt ar gyfer byd teledu a ffilm. Wrth edrych 'nôl ar pan o'n i yn yr ysgol doedd gen i ddim syniad beth o'n i eisiau gwneud fel gyrfa, ond ro'n i'n sicr nad oeddwn am gario 'mlaen gydag addysg a mynd i'r brifysgol. Ro'n i eisiau gyrfa, a beth o'n i yn mwynhau gwneud oedd peintio, yn enwedig pobl. Roedd Dad a Mam yn awyddus iawn i fy nghefnogi i ond Uncle Cyril oedd yr un wnaeth y gwaith ymchwil, a chefais fy nerbyn gan y byd enwog Barbara Daly, ac fel dyweda'r Sais, "the rest is history!".

Dwi'n hunangyflogedig, felly mae gen i asiant sydd yn chwilio am waith addas ar fy nghyfer. Ar ôl cael cynnig a derbyn unrhyw brosiect i weithio ar ffilm neu raglen, mae'r cwmni yn gyrru sgript i mi ac o fan hynny ymlaen, dwi'n cychwyn cynllunio sut bydd y cymeriadau yn ymddangos ar y sgrin. Mae ambell i beth i'w ystyried - y cyfnod i gychwyn; gall fod yn 1920, Oes Victoria, cyfnod cyfoes neu yn y dyfodol. Fy ngwaith i yw galluogi i'r actorion bortreadu eu cymeriadau yn gredadwy - naill ai gyda llond pen o prosthetics neu dim sgrap o golur. Mae'n rhaid gwneud ymchwil helaeth - dwi'n darllen am y cyfnod, beth oedd yn dylanwadu ar ffasiwn ac agwedd, hefyd mynd i amgueddfa, ymchwilio ar pinterest ayb. Dwi wedyn yn cael cyfarfod gyda'r cyfarwyddwr a thipyn go lew o gynhyrchwyr, cynllunydd y cynhyrchiad a hefyd, y cynllunydd gwisgoedd. Ar gyfer hyn dwi'n arlunio syniadau - siâp y cyfnod. Debyg iawn, mae'n bwysig bod pawb yn gytûn er mwyn i hyn fod yn effeithiol ac er mwynhad y gynulleidfa. Mae hyn i gyd yn digwydd cyn bod sôn am actor, ac wedyn gall popeth newid! Mae 'na lot fawr o bobl i'w plesio!

Hyd at y 19eg o Fawrth, roeddwn yn Mallorca, yn ffilmio 'The Mallorcan Files', cyfres BBC gydag actores dalentog o Aberystwyth, Elen Rhys, yn chwarae'r brif ran. Braf oedd cael siarad Cymraeg - dydy hynny ddim yn digwydd yn aml i mi'r dyddiau yma. Yn Mallorca roeddwn mewn fflat yn ganol hen dref Palma ond pan yn Nice, Ffrainc roeddwn mewn villa yn edrych dros y môr gydag Elton John yn gymydog i mi!

Daeth y ffilmio i ben ar orchymyn llywodraeth Sbaen, (am y tro - gobeithio), ac yn sydyn bu rhaid imi bacio popeth yn y fflat a hedfan i Lundain, gydag un cês dillad! Roedd hi'n rhyfedd cyrraedd Llundain a gweld siopau ar agor a neb yn gwisgo mwgwd (heblaw fi!). Roedd Mallorca wedi bod ar *"lockdown"* ers pythefnos, a'r heddlu a'r fyddin yn stopio pobl rhag mynd allan. Er ein bod ni yn y Deyrnas Unedig, yn clapio pob nos Iau, yn Mallorca roedden nhw a finne, yn clapio am wyth o'r gloch bob nos. Oherwydd nad oedd gen i amser i wylio'r newyddion yn gyson yn Mallorca, ro'n i'n hanner gobeithio am ryw wyrth o iachâd i'r pandemig anweledig diawledig yma. Ers hynny, dwi wedi bod yn gaeth yn Llundain.



**Magi yn derbyn y wobr Emmy am ei gwaith ar Downton Abbey**



**Cyrraedd y carped coch mewn seremoni wobrwyo**

Mae natur fy ngwaith yn fy ngalluogi i deithio'r byd ac yn aml, yn aros mewn gwlad am wyth mis ar y tro; dwi'n treulio mwy o amser dramor nag yng Nghymru. Dyw hi ddim yn anghyffredin i mi deithio yn syth o un wlad i'r nesaf, er enghraifft, o Ganada i Dde Ffrainc i Mallorca i Foroco. Dwi'n cyfri fy hun yn lwcus iawn o gael y cyfle i weld y byd fel hyn, a gweithio gyda'r bobl leol. Efallai bod hyn yn swnio yn *glamorous* iawn i chi ddarllenwyr, ond dwi hefyd wedi bod yn gweithio yng nghanol cae yn y glaw trwy'r dydd a thrwy'r nos am 4 wythnos, ac mewn *'make up trailer'* yn Rwmania mewn *heatwave* heb *air conditioning* - prin oedd hi'n werth cychwyn roedd y colur yn llifo lawr eu bochau mor sydyn ag o'n i'n ei roi o 'mlaen.

Mae'n debyg mai'r rhaglen i mi gael mwyaf o gydnabyddiaeth amdani yw Downton Abbey, yn enwedig yn America. Bues i draw yn Los Angeles ddwywaith i dderbyn Emmy am fy ngwaith a hefyd, dwi wedi ennill dwy wobr arall gan yr 'Hollywood make up artist and hair stylist guild awards'. Roedd y profiad yn swreal iawn fel allwch chi ddychmygu. Roedd rhaid imi hedfan yn ôl i Prague y diwrnod wedyn achos 'mod i ar ganol ffilmio y Musketeers yno: roedd yr holl griw yn aros amdanaf ac roedd pawb yn awyddus iawn i ddathlu – gan gynnwys fi. Ar yr awyren yn hedfan yn ôl, roedd criw'r caban mor hapus o gael Emmy ar y siwrne, iddo gael teithio'n ddosbarth cyntaf lle roeddwn i yn economi!! Clywais wedyn eu bod nhw wedi bod yn tynnu lluniau gyda'r Emmy bach, trwm!

Yn aml, mae pobl yn awyddus i wybod beth mae'r actorion dwi'n gweithio efo fel, a dwi wedi gweithio efo llawer o enwogion ar hyd y blynyddoedd - Dame Shirley Bassey, Dame Maggie Smith, Rob Lowe, Richard Gere, Julia Stiles i enwi ychydig. Mae rhai yn fendigedig ac eraill yn ddifrifol ond fyddwn i byth yn medru dweud pwy! Mae 'na ddiwrnodau liciwn i sgrechian, yn enwedig pan mae actorion yn hwyr, yn lletchwith neu yn hynod o anghwrtais. Ond diolch byth, does dim llawer o rheiny ac mae'n wir fod y goreuon yn ganwaith haws na'r llai talentog!


Pwy a ŵyr beth fydd fy myd bach i fel pan fydd hyn drosodd ond mae hi wedi bod yn gyfnod o fyfyrio ac ystyried. Hen ddigon ohono!

*Diolch yn fawr i chi, Magi, am gymryd yr amser i gyfrannu i'r golofn. Mae'n ddiddorol gwybod mwy am beth sy'n mynd ymlaen cyn i ni weld ffilm neu raglen yn ein 'stafelloedd byw ni adre.*

# Blodau mis Mai

Wel tydan ni'n lwcus o'r tywydd clên ma 'dwch (er mae angen glaw i'r ardd – gan obeithio na chawn ni rew eto de). Ydach chi wedi clywed y gôg eto? Mi chlywyd hi yng Nglaspwll ar 18 Ebrill eleni – sy'n eitha buan. Reit ta, sut hwyl gafoch chi'n enwi blodau mis Ebrill? Dyma chydig o rai mis Mai ichi (oedd na rai wedi pasio erbyn imi dynnu lluniau y mis yma – wedi bod yn rhy boeth i rai ohonyn nhw!) Fe dynnwyd y lluniau yma ddydd Sul 10 Mai mewn gardd ym Mro Ddyfi. Os byddwch mewn penbleth (ac yn methu dod o hyd iddyn nhw ar Google!) mae'r atebion i'w gweld ar dudalen 28.


1



2




3



4



5



6




# Hysbysebwch yn y Blewyn Glas!

**Prisiau hysbysebu**:
Hyd at ⅛ o dudalen - £10 | Hyd at ¼ tudalen - £20
Hyd at ½ tudalen - £40 | Hyd at dudalen gyfan - £80

Anfonwch eich hysbyseb i:
**papurblewynglas@gmail.com**

Mae 1000 copi o'r Blewyn Glas yn cael ei werthu bob mis, ac amcangyfrir bod tua 5000 yn ei ddarllen.




Chwilio am gefnogaeth COVID 19?
Ddim yn siwr i bwy i ofyn?

## Cysylltwyr Cymunedol

**Rydym ar agor ac yma i'ch helpu a'ch cefnogi**
**Helpu unigolion**
**Cefnogi Grwpiau Cymunedol**
**Helpu i ganfod cefnogaeth leol**

**Eich Cysylltydd Lleol**
**Machynlleth a Bro Ddyfi**
**Sioned Pritchard**

**Llun-Gwener 9yb - 10yh a Sadwrn-Sul 9yb - 5yh**

01597 828649

**cysylltwyr.cymunedol@pavo.org.uk**



# Marathon, nid sbrint!

Helo bawb, Naomi Rees ydw i, a dyma flas i chi ar fy nhaith colli pwysau.

Dw i'n siŵr fod pawb yn cytuno fod mynd i'r coleg am dair blynedd yn brofiad anhygoel, a digon posib, y profiad gore' o'ch bywydau. Ond yr holl yfed tan oriau mân y bore, y *kebab* am 4 o'r gloch ar ôl dawnsio'n wirion yn y clwb, y tripiau di-ri i McDonalds a Tesco i brynu sothach rhwng darlithoedd, neu i osgoi 'neud aseiniadau, wel mo'n adio fyny ar ddiwedd y dydd yn tydi?

Cefais ddiwrnod graddio i'w gofio gyda fy nheulu a ffrindiau ym mis Gorffennaf '19, gyda phryd 3 chwrs bendigedig yng Nghastell Deudraeth ar ddiwedd y diwrnod a llawer gormod o siampên a gwin! Dyna pryd nes i sylwi bod rhaid i mi golli pwysau. Yn ugain oed, yn eistedd mewn *jumpsuit* maint 20 a fy mol bron a ffrwydro, roedd rhaid i mi wneud rhywbeth. Ges i wyliau haf prysur: *Royal Welsh*, Eisteddfod, troi'n 21ain, sawl gŵyl, gwyliau i Ffrainc ond erbyn mis Medi a chychwyn fy swydd newydd ym Mro Hyddgen, roedd hi'n amser newid! Cychwynnais fynd i ddosbarthiadau cylched gyda Nia Lewis am 8:30 fore Sadwrn, ac i rywun doedd heb wneud owns o ymarfer corff dros ddyddiau coleg, roedd cychwyn yn her a hanner, ond rwy'n ddiolchgar

UNIT 2 GYM
BY NIA LEWIS PERSONAL TRAINING





iawn i fy ffrind, Steph am fod yna gyda mi.

I gadw cofnod o fy mhwysau, ro'n i'n mynd draw i dŷ Taid i bwyso'n hun. Gollais i 1 stôn rhwng mis Gorffennaf '19 a diwrnod Nadolig '19. Prynodd Taid 'smart scales' i mi, ac roedd o'n wych ac yn medru mesur popeth. A dyma ni, ddoth yr wmff o *'motivation'*, a diwrnod 'dolig nes i benderfynu, reit y flwyddyn newydd. *This is my year!*

Ar y cyntaf o Ionawr, gofynnais i Mam dynnu lluniau ohona'i er mwyn i mi weld y cynnydd. Roeddwn bellach yn mynychu dosbarth *'Legs Bums a Tums 'LBT'* ar nos Iau a *'circuits'* ar foreau Sadwrn! Erbyn mis Chwefror, bachais ar y cyfle i gychwyn *'Personal Training'* gyda Nia, ynghyd â dau ddosbarth *'circuits'* ac un dosbarth 'LBT' a chlipiau fideo ymarfer corff i wneud adref. Roedd pethau'n mynd yn wych hyd yn hyn a dyna pan darfodd yr 'anwyd mawr'.

**'Lockdown' a Sialens 8 wythnos adref gyda Nia Lewis 'PT'**

Fel pob un person arall, roedd rhaid ymdopi â'r hyn oedd yn digwydd. Roedd meddwl am beidio mynd i'r ysgol a pheidio gweld y plant yn fy ngwneud yn drist. I mi'n bersonol doedd amseru'r *'lockdown'* ddim yn berffaith ac yn anodd iawn am sawl rheswm. Ond, ar yr amser gorau bosib cychwynnodd Nia'r sialens i bobl fedru dilyn adref. Mae'r sialens yma wedi gwneud byd o wahaniaeth i mi, a wirioneddol wedi helpu fy iechyd meddwl. Hyd yn oed er nad oeddwn yn gweld Nia, roedd hi dal ar gael fel *'Personal Trainer in a pocket'* fel mae'n ei alwn, ac roedd hynny'n wych! Mae'r cyfnod yma fel 'rollercoaster' brawychus tydi? Rhai dyddiau da, rhai dyddiau drwg. Ond wrth i'r diwrnodau a'r wythnosau gario 'mlaen, a phan oeddwn i'n gweld y cynnydd mewn lluniau ac mewn digidau ar y glorian, roeddwn yn magu hyder ac roedd y wên yn tyfu bob wythnos trwy'r cymylau tywyll!

Wrth i mi 'sgwennu hwn, 'da ni mewn i wythnos 8 o'r *'lockdown'*, a'r wythnos olaf o'r sialens gyda Nia. Dwi ddim yn meddwl mod i wedi symud gymaint â hyn ers TGAU. Mae'r sialens yma'n cynnwys 3 clip yr wythnos, syniadau bwyd, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth. Ynghyd â'r sialens, rwyf wedi cychwyn rhedeg gyda'r Ap to 5k ac yn ceisio cerdded 10km rhyw dair gwaith yr wythnos. Ynghyd â'r holl ymarfer corff, mae fy mherthynas gyda bwyd a diod wedi newid. Rwy'n ceisio dilyn ryseitiau a syniadau bwydydd gwahanol mae Nia yn rhoi i mi. Dw i'n ceisio osgoi byrbrydau ond ar ddiwedd y dydd, weithiau mae angen paned a darn bach o gacen! A choeliwch neu beidio, drwy gwblhau hyn, rwyf bron a cholli 2 stôn yn ystod cyfnod y *'lockdown'*! Ydw i wedi gorffen fy nhaith? Naddo, ddim eto! Mae gen i dipyn o ffordd i fynd, a Sialens 8 wythnos Rhan 2 ar y gweill, dwi wirioneddol yn edrych ymlaen at weld ble fydda i wedi cyrraedd ymhen 8 wythnos arall!


Cyn cychwyn colli pwysau, mi wnes i osod targed i'n hun i golli 3 stôn erbyn i mi fod yn forwyn briodas ym mis Mehefin 2021 ond, dwi bellach di pasio fy nharged gyda 13 mis arall i fynd. Dw i'n hynod o falch fy mod wedi colli dros 3 stôn a hanner. Ond dim y rhif sydd ar y glorian sy'n bwysig i mi erbyn hyn, ond teimlo'n gyfforddus yn fy nghroen a pheidio cuddio mewn dillad rhy fawr. Tydi colli pwysa' ddim yn hawdd o gwbl, yn enwedig mewn cyfnod o ansicrwydd, anodd a thywyll. Ond rhywbeth ddywedodd Mam wrtha'i ddiwrnod o'r blaen, *'Give yourself a break'* - byddwch yn falch ac yn glên i chi'ch hunain.

Diolch o galon i Nia Lewis am fy helpu ar hyd y ffordd - Ti'n ffantastig!

Cadwch yn saff,
Naomi







# Yn y Gegin
## gyda Nigeiola!

Wel sut ydach chi i gyd bobol? Ydach chi i gyd yn cadw'n iach gobeithio, a ddim yn mentro allan o'r tŷ os nad oes gwir angen. Wel â sôn am beidio teithio'n ddiangen mae rhywun yn cysidro mwy cyn taro allan i siopa bellach dydy ac yn trio siopa digon am yr wythnos – ond mae'n gythgiam o job pan ma gynnoch chi lond tŷ a rheini'n bwyta popeth o fewn cyrraedd ac yn yfed llaeth fel tasa fo'n mynd allan o ffasiwn dydi (ma na lot o yfed wyau wedi bod yn digwydd yn tŷ ni'n ddiweddar hefyd!)

Beth bynnag, yn ôl at fara – does 'na'm byd sy'n fy ngwylltio i fwy na bo rhywun wedi bwyta crystyn ola'r bara a 'dach chi ddim yn ffeindio allan nes bo chi'n trio gneud tost i frecwast! Wel dyma ateb sydyn ichi (wel ddim mor sydyn â hynny - ma'n cymryd tua awr i goginio ond ddim chwinciad i'w wneud).

**Bara 4 cynhwysyn (a dim burum)**
Ma'r ryset yma'n gneud 2 dorth fach gron (ond mi haneres i'r cynhwysion a jest gneud un i weld sut bydde hi'n troi allan – odd hi'n ok ond angen ei bwyta'n reit sydyn, ond yn handi pan does gynnoch chi ddim bara yn y tŷ)

**Reit ta dyma beth sydd ei angen arnoch chi –**
500g o flawd codi (1lb o flawd 'selff-rêsing')
330ml o lager gola (Heineken oedd digwydd bod acw – meddwl ella fod 'na furum mewn lager felly dyna pam bo angen hwn ynddo fo)
½ llwy de o halen
2 llwy fwrdd o olew

### Sut i wneud y dorth – îsi-pîsi

**Byddwch angen cynna'r popty i wres 200*C neu 180*C ffan**

1. Rhowch bopeth mewn bowlen a'u cymysgu'n dda nes bydd y gymysgedd fel pelen 'elastig'. Os bydd y cymysgedd braidd rhy stici rhowch chydig mwy o flawd i'r gymysgedd.



2. 'Sgeintiwch chydig o flawd ar y bwrdd a rhowch y gymysgedd arno a'i ffurfio'n belen.
3. Sbrinclwch chydig o ddŵr dros y dorth yna 'sgeintiwch chydig o flawd drosti.
4. Rhowch haenen o bapur gwrthsaim ar dun hir ('bêcing tre') a rhowch y dorth arno.
5. Gwnewch 3 – 4 hollt yn y dorth efo cyllell finiog.
6. Rhowch y dorth yn y popty (does dim angen ichi aros iddi godi) am tua awr nes y bydd hi wedi crasu'n ddel a bo sŵn gwag pan fyddwch yn ei throi drosodd ac yn ei thapio ar ei chefn
7. Gadewch i oeri chydig yna bwytwch hi'n gynnes efo trwch o fenyn arni.







Dyma chi lun o fy nhorth i – digon blasus a hawdd iawn i'w gwneud. Beth am i chithau rannu eich rysetiau a llun o'r eitem orffenedig at papurblewynglas@gmail.com

# Planhigion ar Werth i Elusennau Nyrsio a Gofalwyr

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae perchnogion gerddi yn Aberangell wedi agor eu gerddi ar gyfer y Cynllun Gerddi Cenedlaethol (NGS). Ar draws Cymru a Lloegr, mae cannoedd o erddi preifat yn croesawu ymwelwyr i fynd am dro o amgylch eu gardd, cael te a chacennau a phrynu planhigion. Cododd y cynllun hwn £3miliwn yn 2019, ac aeth y rhan fwyaf ohono i Gymorth Canser MacMillan, Marie Curie, Hospice UK, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Sefydliad Nyrsio'r Frenhines.

Yn amlwg, hyd y gellir rhagweld, bydd y gerddi ar gau i ymwelwyr a bydd y swm y bydd yr NGS yn gallu ei roi i'r elusennau hyn yn cael ei leihau'n fawr. Penderfynodd y rhai ohonom a fyddai wedi agor ein gerddi fel arfer yn ystod yr haf hwn, y gallem ddal i godi rhywfaint o arian trwy werthu planhigion. Felly, wrth ymyl y safle bws yn Aberangell, mae stondin planhigion, gyda thoriadau ac eginblanhigion yn cael eu rhoi gan arddwyr yn Aberangell a detholiad o Ganolfan Garddio Camlan. Os ydych chi'n arddwr, ac mae gennych chi rai planhigion sbâr, toriadau ac ati, ystyriwch fynd â nhw i'r stondin ac efallai godi bargen neu ddwy ar gyfer eich gardd eich hun.

Yn ystod dau ddiwrnod cyntaf yr ymgyrch newydd hwn, fe godon ni bron i £100, sy'n anhygoel o ystyried ein bod ni'n gymuned fach! Mae blwch gonestrwydd ar y bwrdd, felly nid oes angen i chi ddod i gysylltiad ag unrhyw un. Gobeithiwn y gallwch gefnogi'r prosiect bach hwn wrth gynnal pellter cymdeithasol cyfrifol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw giwiau!

Diolch yn fawr,
Carole a Sue o dîm NGS.



## Corris

Mr Gareth Price

**Baw Cŵn**
Cais yw hwn i berchnogion cŵn yr ardal fod yn fwy cyfrifol. Mae yna nifer o bobl yn cwyno am y baw cŵn sy'n bla ar hyd yr ardal. Mae'n wael iawn ar lwybr y Braich (zig zags) a safle picnic Aberllefenni. Gan nad oes yna ymwelwyr yma ar hyn o bryd, pobl leol sy'n gyfrifol am hyn. Felly er lles a diogelwch pawb arall, cofiwch, 'bagiwch a biniwch' os gwelwch yn dda.

**Cartrefi Newydd**
Pob dymuniad da i Joan a Karen Davies yn eu cartref newydd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno. Croeso hefyd i Rikki a Jemma sydd wedi symud i 19 Maesyllan o Bennal. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Gwynfryn, Pantperthog yn eu profedigaeth o golli brawd, Elfed Pugh yn ddiweddar.

**Y *'Lockdown'***
Gan ei bod yn gallu bod yn amser unig a diflas i rai, mae'n rhaid i ni feddwl am ba mor lwcus ydyn ni ar hyn o bryd hefyd, meddyliwch os bydden ni yn y sefyllfa yma ugain mlynedd yn ôl, heb y we i'n diddanu? Bydden ni ddim yn gwybod be mae 'Gordon Ramsey Corris' a'i wraig yn cael i swper bob nos na pa lieiniau bwrdd sy'n ffasiynol! Fydden ni chwaith ddim yn gwybod am ba mor hir mae ein cymdogion yn rhedeg neu'n mynd ar eu beic bob dydd!

Ugain mlynedd yn ôl, dim ond siarad â theulu a ffrindie fydden ni'n gallu gwneud, dim sôn am *whats ap* neu *skype*. Ac os bydden ni'n ddigon lwcus i fod yn berchen ar ffôn symudol, dim ond un gêm fyddai gennym i'n diddori sef, *snake*.

Meddyliwch pa mor anodd fyddai dysgu'r plant adre heb Wikipedia neu Alexa i'n helpu?

Doedd yna ddim *Netflix* ugain mlynedd yn ôl, na *Facebook*. Roedd hi'n amhosib archebu rhywbeth a'i gael o yn eich cartref y diwrnod canlynol.

Ydy, mae hi'n amser pryderus a diflas, ond, mae'r tywydd braf yn helpu. Bechod bod y sioeau bach i gyd wedi'u canslo, achos dwi'n siŵr bod gerddi pawb yn llawn llysiau a blodau penigamp eleni!

Gallai fod yn lot gwaeth arnom, ac os wnawn ni gyd ddilyn y canllawiau a chadw yn saff, fe ddaw eto haul ar fryn.

# Blewyn o'r Beirdd

*gan Mari Lisa*

Fel pob cymdeithas y dyddie hyn, dydi aelodau Ysgol Farddol y Llew Coch ddim yn gallu dod at ei gilydd. Yn hytrach rydyn ni'n trafod dros yr e-bost, ac mae rhai yn Sgeipio neu'n Sŵmio'i gilydd. Mi holodd Gwion Aeron y dydd o'r blaen a oedd rhywun yn cofio englyn i'r Falwoden a gafodd ei frandio yn Englyn Gwael Iawn. Ac fel chwip, dyma ateb gan Arwyn Groe yn dyfynnu'r englyn:

**Y Falwoden**
Ymlusgiaid lom hawdd i'w siomi - ydyw
'R falwoden lesg ddifri,
heb asgwrn yn ymbesgi,
drwy ei chyrn yr edrych hi.

Sylwch mor llythrennol ydi'r englyn yma. Dydy o ddim yn eich goglais chi, dydy o ddim yn cyffroi'r enaid. Disgrifiad moel a dim arall. Sylwch hefyd fel mae'r testun wedi'i gynnwys yn yr englyn a hynny i ddim pwrpas o gwbwl. A sut yn y byd mae gwybod bod malwoden yn 'hawdd i'w siomi'? Tan yn lled ddiweddar mi roedd yna le ar y we i feirdd, sef Annedd y Cynganeddwyr. Mae'r wefan honno wedi dod i ben ers 2018, ond roedd yn cynnwys casgliad tafod-yn-y-boch o Englynion Gwael Iawn, ac mi roedd yr englyn uchod yn eu plith.

Dyma ragor o wybodaeth gan Arwyn Groe: "Robert Roberts, Cwmderwen, Cwm Nant yr Eira, Llanerfyl ydi'r awdur. Roedd o'n frawd i James Roberts 'Derwenog' a chan fod Derwenog ychydig yn fwy adnabyddus, mae rhai yn priodoli'r englyn i Derwenog ar gam.

Mae'n debyg hefyd bod sentimentaleiddiwch Cymdeithas y Gwyneddigion yn gyfrifol am steil y math yma o englyn a gafodd ei frandio yn 'englyn gwael iawn'. Cymdeithas oedd yn cwrdd yn Llundain oedd honno. Bobl busnes reit ariannog oedden nhw ac roedden nhw'n noddi eisteddfodau a chystadlaethau llên. Roedden nhw'n gosod testunau ac roedden nhw'n daer, mae'n debyg, am gael y testun yn llythrennol YN yr englyn! Ac mi ddatblygodd hynny wedyn yn ffasiwn mwy eang tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi'r cyfan, os mai dyna oedd beirniaid yn ei wobrwyo, wel dyna be' oedd yn mynd i gael ei greu ynde?"

Edrych drwy lygaid heddiw yden ni wrth gwrs. Fel y soniodd Arwyn Groe, roedd y math yna o englyn yn ffasiynol yr adeg honno, ac yn cael eu gwobrwyo. Roedd Robert Roberts, a'i frawd Derwenog, yn feirdd da ac yn dod i'r brig yn aml mewn amryw gystadlaethau. Ennill wnaeth yr englyn uchod i'r Falwoden hefyd a hynny yn Eisteddfod olaf un yr hen Lanwddyn ym mis Mehefin 1888. Roedd yr argae wedi bod ar waith ers tua 1881 a chafodd ei gorffen ym 1888. Yn fuan wedyn, roedd Llanwddyn dan ddŵr.

## Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas Corris ac Ysgol Pennal

Er bod hyn yn amser anodd a rhyfedd i holl staff a phlant y Ffederasiwn, mae'r holl luniau o'r gweithgareddau mae'r disgyblion wedi bod yn ei wneud adref yn codi calon. Mae rhai disgyblion wedi bod yn parhau i ddod i'r ysgol gan fod eu rhieni yn weithwyr allweddol, ac maent wedi bod yn brysur yn yr ardd. Mae'r cynnyrch yna'n cael ei adael mewn bocs i'r pentrefwyr i'w cael am ddim. Hoffem ddiolch i Jane Rigby sydd wed bod yn brysur yn rhoi help llaw.

Mae'r staff i gyd yn methu'r plant yn ofnadwy, ond yn edrych ymlaen at gael parti mawr pan fydd hyn i gyd drosodd.




**Gwenllian yn arddangos ei neges i'r holl weithwyr allweddol ar iard Ysgol Pennal.**



**Deri, Cian, Selkie a Jacob yn helpu Mrs Wells a Mrs Jones yn ardd Ysgol Dyffryn Dulas Corris**

# Y GOLOFN AMAETH

## Gan Prys Morgan, Kepak

Pwy fyddai'n meddwl nad Brexit yw prif newyddion y dydd a byddai'n cael ei ddisodli gyda'r clefyd Covid-19, sy'n dipyn mwy peryglus ac yn effeithio ar bawb yn y byd mewn rhyw ffordd. Mae'r clefyd a'i effaith yn y newyddion yn barhaus ac mae'n dangos pa mor fregus yw bywyd a hefyd ein ffordd o fyw.

Digon gwir yw'r dywediad fod angen colli rhywbeth cyn i ni ei werthfawrogi. Yn amlwg, iechyd yw'r peth pwysicaf ond mae bwyd yn dilyn yn agos iawn. Mae cadwyni cyflenwi byd-eang yn iawn heblaw eu bod dipyn mwy bregus na chadwyni cyflenwi sy'n fwy lleol.

Gwelwyd silffoedd gwag mewn nifer o siopau a diddorol oedd sylwi ar beth oedd bwysicaf ym meddwl y cwsmer. Un peth oedd yn amlwg fod cig coch, er gwaethaf y cyhoeddusrwydd negyddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn agos iawn i'r brig ac yn cael ei ystyried yn gynhaliaeth sylfaenol.

Hefyd, er bod amaethu yn parhau, mae yna ostyngiad amlwg yn y lefelau llygredd yn fyd-eang a rhaid gofyn cwestiynau ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am lygru ein byd a newid hinsawdd.

Gobeithio fel gwlad ein bod wedi dysgu pwysigrwydd cael cadwyni cyflenwi byr, cadarn, diogel a chynaliadwy. Amser a ddengys pa mor hir fydd ein cof yn para am brinder cig coch a phwysigrwydd cefnogi cynnyrch lleol. Yn anffodus hawdd yw dweud, ond faint ohonom mewn gwirionedd sydd yn barod i gefnogi cynnyrch safonol o Gymru neu o Brydain?

Gwelwyd pryniant cig yn cynyddu yn aruthrol ym mis Mawrth a dechrau Ebrill gyda gwerthiant briwgig yn fwy na'r un ffurf o gig coch. Gellir damcanu nifer o resymau am hyn, yn cynnwys eu bod yn haws gwneud pryd neu ddau i deulu, ei fod yn gymharol rhad, ei fod yn gallu cael ei rewi ac efallai fod y cwsmer ddim mor hyderus i goginio toriadau eraill megis stêc. Beth bynnag y rheswm, roedd galw enfawr am friwgig yn y siopau.

O ganlyniad i gau bwytai a gwestai yn y wlad yma a thramor mae'r galw am doriadau megis stêc wedi syrthio. Er mwyn cael gwerth allan o garcas mae'n rhaid ei werthu mewn cydbwysedd ond yn anffodus mae'r cydbwysedd yma dros yr wythnosau diwethaf wedi bod dipyn allan ohoni.

Ar ddiwedd y dydd cyflenwad a galw sy'n pennu prisiau ac mae'n siŵr y gwelwn dipyn o newidiadau yn ystod y misoedd sydd i ddod. Mae'n gyfnod ansicr ac rydym wedi gweld prisiau bîff ac ŵyn yn amrywio yn aruthrol ac mae'n debyg y bydd hyn yn parhau hyd nes y gwelwn sefydlogrwydd yn ein ffordd o fyw a'r galw am gig coch.

Mae amaethu wedi gweld nifer o amseroedd anodd ond dylem ddysgu o'r pandemig yma fod angen diwydiant cig coch cynaliadwy i barhau i gyflenwi bwyd o safon, sy'n cyfrannu at ddeiet iach ynghyd â diogelu ein cefn gwlad.



# Mynd yn poti

Wrth fynd o amgylch yr ardd rhyw ddiwrnod, sylwais bod gen i dros 50 o botiau neu gynwysyddion blodau. Roedd y rhain yn amrywio o botiau arferol i hen degell, can llaeth, sosban, crochan, can dyfrio, poti enamel, sinciau Belfast, cafn mochyn, corn simne, darnau o bibelli draenio ac ati.

Mewn cornel dywyll o'r ardd, doeddwn i ddim eisiau gwario ffortiwn ar botiau, felly es i sbrotian o amgylch y lle a chael hyd i nifer o gynwysyddion gwahanol. Mae'r hostas yn tyfu'n dda yma (byddan nhw'n edrych yn well mewn mis neu ddau) ers sawl blwyddyn bellach a mantais arall i'r potiau – mae'r hostas yn cael llonydd efo'r malwod!

Dwi'n siŵr bod nifer ohonoch â llawer o syniadau tipyn mwy gwreiddiol na hyn. Felly beth amdani ddarllenwyr y Blewyn, beth am gael cystadleuaeth 'y potiau blodau mwyaf gwreiddiol a gwahanol'? Anfonwch luniau ac fe'u cyhoeddwn yn y rhifyn nesaf.





# Dod i 'nabod ...

## Y PANEL GOLYGYDDOL

### Enw: Iola Jones

**Aelod o'r panel ers: 1985! 35 o flynyddoedd!**



**Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?**
Ddim yn siŵr… mi wnes i joio tyfu fyny yn y 60-70au pan oedd bywyd yn symlach a bobl yn fwy cymdeithasol a phan mai'n syniad ni o noson dda allan oedd mynd i weld perthnasau ar ôl swper. Efallai y daw hyn yn ôl yn ffasiynol eto yn dilyn y cyfnod hanesyddol yma dan ni'n digwydd byw ynddo ar hyn o bryd.

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Penwythnos yn Center Parcs efo'r teulu… neu benwythnos mewn spa yn cael fy mhampro!

**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Rhegi gormod (o lawer!) a dwi'n berson di-amynedd iawn, iawn!

**Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.**
Ges i fy ngeni bythefnos yn fuan ar lawr y gegin adre – a dyna'r tro cyntaf a'r tro olaf imi fod yn fuan yn n'unlle!

**Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?**
Dwi'n difaru na faswn i wedi treulio mwy o amser efo fy chwaer pan oedd hi'n fyw… dwi'n cofio hi'n deud wrtha i pan on i wedi anfon anrheg bach iddi drwy'r post 'dwi ddim isio ti wario dy bres arna i, dwi jest isio dy weld di'n amlach'. Ma honna'n wers inni i gyd. Ond ar y nodyn ysgafnach – ar y funud hon – dwi'n difaru na wnes i dorri fy ngwallt ym mis Mawrth! Dwi fatha merlen fynydd wyllt ar hyd y lle ma (be 'dach chi'n feddwl 'dim gwahanol i'r arfer te!!'😂)

**Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?**
Dwi'n lwcus mod i'n gallu gweithio o adre (ond mi faswn i'n gwerthfawrogi 'wi-fi' cyflymach!), gwneud bwyd, golchi dillad, mynd am dro, cerdded at y llyn, peintio un o'r llofftydd (os bydd gen i ddigon o baent ac os dof o hyd i frwsh paent call yn rhywle), ffonio lot mwy o bobl na'r arfer am sgwrs fin nos – yn enwedig y teulu yn y gogledd a ffrindiau agos, yfed gwin a bwyta siocled a chrisps!

### Enw: Eirian Jones

**Aelod o'r panel ers tua 1986/7**

**Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?**
Mae'r cyfnod yma'n eitha hwylus efo peiriannau golchi dillad, llestri, cyfrifiaduron ac ati, ond efallai byddai byw adeg y syffrajets wedi bod yn ddiddorol i ferched. Gallai protestio i geisio cael yr hawl i bleidleisio fod wedi bod yn gyffrous.

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Dim gwaith tŷ! Mynd i rywle lle mae na fwyd blasus a gwin da, mynd am dro.

**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Cnoi f'ewinedd; rhegi!!

**Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.**
Ffan o bêl-droed – Leeds United a Chymru wrth gwrs!

**Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?**
Na faswn i 'di cael contact lensys yn gynt a heb dreulio blynyddoedd coleg yn ddall fel bat am fy mod rhy fên i wisgo sbectol!

**Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?**
Dwi'n gweithio i gwmni cyhoeddi Atebol ac yn parhau i weithio adref yn gwneud gwaith golygu a chyfieithu. Fel arall dwi'n mwynhau garddio, darllen a Netflix a ddim yn mwynhau glanhau a chwcio! Yn ffodus rwy'n byw ar fferm ym mhen pellaf Aberhosan ac yn gallu mynd am dro heb weld unrhyw un ac wedi llwyddo i gerdded i dop Moel Fadian!





## Enw: Mari Lisa

**Aelod o'r panel ers 2017**

**Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?**
Byddai mynd yn ôl i fyw mewn cyfnod arall yn reit anodd i ferch, er enghraifft does yna ond gwta canrif wedi mynd heibio ers i ferched allu pleidleisio. Ond, cyn belled ag y gallwn i ddod yn ôl wedyn, mi fyswn i'n licio mynd yn ôl i'r bymthegfed ganrif i gwrdd â Gwerful Mechain ac i wrando arni'n ymrysona efo Dafydd Llwyd, Mathafarn.

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Penwythnos hir o gerdded efo Neli'r labrador, tywydd da, cwmni da, bwyd da.

**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Gadael pethau tan y funud ola un.

**Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.**
Roeddwn i wedi gwirioni'n lân efo aerobeg ar un adeg, a chan nad oedd dosbarthiadau aerobeg Cymraeg, mi wnes i gymhwyso fel athrawes aerobeg, hurio neuadd Ysgol Glan Tâf – roeddwn i'n byw yng Nghaerdydd ar y pryd – a dechrau dosbarth wythnosol yno. Hwn, o bosib, oedd y dosbarth aerobeg Cymraeg cyntaf bryd hynny.

**Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?**
Dim. Mae ddoe wedi mynd, ac mi basith heddiw eto.

**Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?**
Dydy pethau heb newid rhyw lawer i fi ers cyfyngiadau'r coronafeirws, oherwydd gartre fydda i'n gweithio bob dydd beth bynnag, ac mae pethau'n dal i fod felly. Y gwahaniaeth mwya ydi mod i gartre gyda'r hwyr hefyd – sy'n beth anarferol iawn!

## Enw: Eryl Evans

**Aelod o'r panel ers:** Dwi'm yn cofio a bod yn onest.....tua 20 mlynedd?

**Pa gyfnod mewn hanes hoffet ti fod wedi byw ynddo? Pam?**
Dwi'n ddigon bodlon fy myd fel y mae. Mae gen i lawer i fod yn ddiolchgar amdano ac wedi cael cyfleon fyddwn i ddim wedi ei gael yn y cyfnodau sy wedi pasio. Mae gen i'r rhyddid i fynd a dod fel dwi isio ac i gael bob dim dwi ei angen. Wel, mi oedd hynny cyn i'r Covid 19 'ma ddod i ddrysu pethe. Fe ddaw pethau yn well ond bydd rhaid bod yn amyneddgar.

**Beth fyddai dy benwythnos perffaith?**
Mae hwn yn hawdd! Yn syml iawn, jyst cael fy nheulu bach yn eistedd rownd y bwrdd yma yn Penyglôg. Dydy hynny ddim yn medru digwydd yn aml, wrth gwrs, gan fod Lynwen, Harry a'n wyres fach i, Lowri yn ffermio ryw 500 milltir i ffwrdd yn Aberdeen. Ond siawns y daw cyfle cyn bo hir gobeithio gan fod gennym achos hapus i ddathlu, sef genedigaeth Eos Aneira, merch fach Aneira a Robyn ac wyres fach arall i sbwylio.



**Oes gen ti unrhyw arferion drwg?**
Mae'n bosib nad y fi ddyle ateb hwnna! Yr un mwyaf amlwg ydy pan fydd rhywun yn neud paned i mi, am ryw reswm dydw i byth yn ei yfed i'r gwaelod. Dwn i ddim pam ond mae pawb wedi hen arfer â hynny erbyn hyn.

**Dyweda rywbeth amdanat ti dy hun nad oes yna lawer o bobl yn ei wybod.**
Fy swydd gynta' ar ôl gadael y brifysgol oedd gweithio yn Natwest, Aberystwyth. Roedd o dipyn gwahanol i astudio'r Gymraeg!!

**Fe ganodd Frank Sinatra, "Regrets, I've had a few". Beth wyt ti'n ei ddifaru?**
Does 'na ddim byd dwi'n wir ddifaru mewn gwirionedd. Falle bod 'na ambell i beth, o edrych yn ôl y byddwn i wedi ei wneud yn wahanol, ond pethe bach digon dibwys ydy rheini. A fedra i neud dim amdano rŵan be bynnag. Yr unig reswm i edrych yn ôl ydy i ddysgu ohono a'i ddefnyddio i neud y gorau o'r sefyllfa fel y mae. Y dyfodol sy'n bwysig neu fel yna dwi'n ei gweld hi beth bynnag.

**Sut wyt ti'n treulio dy amser adre dyddie yma?**
Pan ddaeth y cyfnod aros adre 'ma roedden ni wrthi 'fflat out' yn wyna felly doedd o'n golygu fawr o wahaniaeth i'r hyn fyddai'n digwydd yma bob blwyddyn. Dwi wrth fy modd allan ar y ffarm yn enwedig efo'r defaid ag ŵyn. Dydw i erioed wedi bod yn un o'r rheini sydd yn medru eistedd yn llonydd a neud dim byd felly dwi wastad yn gorfod llenwi bob diwrnod i'r ymylon. Mae 'na dipyn o waith llaw wedi ei gwblhau, garddio wedi ei wneud yn ogystal â bwydo Dei a Thomas, a dal i fyny efo'r holl waith papur angenrheidiol. Ac, efallai rwan, y cai'r cyfle i roi trefn ar y goeden deulu dwi wedi ei dechrau ers ambell i flwyddyn. Mae gen i fusnes hunanarlwyo ac fel arfer fe fyddwn i wrthi'n brysur yn glanhau a golchi gyda'r tai ond, a bod yn onest, dwi'n falch iawn fod pob man ar gau gen i oherwydd dwi wedi cael amser i mi fy hun... peth prin iawn!

# Cathod bach

## Gan Heledd Glyn

(cyn enillydd cadair Eisteddfod C.Ff.I Maldwyn 2015)

Ma Miss Jems yn deud yn 'rysgol bod Now yn cal cathod bach cyn neud 'i brawf Maths.

Dwi'm yn dalld.

Dwi'm yn gweld o'n deg iawn fod Now yn cal cathod bach cyn cal prawf a fi'n cal dim byd, ma Miss Jems wasdad yn deud fod angen trin pawb yr un fath a fod ni gyd yr un peth, ond ma Now yn cal cathod bach, dwi ddim, ma Now yn lwcus.

Dwi reit lwcus go iawn, jesd mod i ddim di deud wrth neb, neb o gwbl, dim hyd yn oed wrth Anni. Dwi fwy lwcus na Now go iawn, achos ddim dim ond cyn prawf maths dwi'n cal cathod bach, ond dwi'n cal nhw bob nos a bob dydd Sadwrn a Sul os dwisho.

Achos ma gen i gathod bach.

Dwi'm yn deud wrth neb achos dwi'n 'u cuddiad nw. Dwi'n 'u cuddiad nw yn y granar, uwchben y cwt glo.

* * * *

Tybed be ma'r rhei bach yn 'i neud yr eiliad yma? Mashwr fod Jam 'di bod yn hela ag yn dwad â mymryn o'i fara menyn adre. Dyna nath ni ddysgu yn dosbarth bore ma- bara menyn. Er dwi'm yn meddwl fod y tair fach arall yn barod i futa dim bara eto, nac ychwaith yn hoff iawn o fenyn, dim ond llaeth Jam ma nhw'n 'i yfed ar hyn o bryd.

Dwi'n cofio'r diwrnod lle nath llygid bach y tair agor am y tro cynta erioed!

Bore Sul oedd hi.

Mi oedd Mam yn eistedd yn ei chader, fel arfer, yn pilio dros yr un rhan o'r foronen ers 5 munud, yn edrych tuag at y pellter, fel arfer. Roedd ei llygid mor dywyll â bol yr hen fuwch ... pam ddim bol tarw? Dwi rioed di bod mewn bol run buwch, mashwr fod fy mol i yr un mor dywyll yndydi? Fu raid fi holi Miss Jems, un dda ydi Miss Jems am wbod bob dim.

Beth bynnag, mi odd Dad yn neud 'i waith papur, yn trio chware efo rw beiriant tagio newydd ac yn gwylltio yn gacwn. Dyma fo'n taflu'r peiriant newydd sbon danlli i'r llawr. A dyma'r peiriant yn torri yn deilchion...yn deilchion!

Wel, sôn am weiddi wedyn, mi gafodd Mam gymint o fraw yng nghanol 'i breuddwyd, nes 'i bod hi'n rhigo bach o'i chroen a'i gwaed yn dechre crio ar ben y foronen. Nes i heglu hi allan wedyn, dwi'm yn lecio gweld Dad yn flin a dwi'n bendant ddim yn lecio gweld gwaed Mam yn crio.

Es i fyny i'r granar. Lle dwi'n cal bach o lonydd.

Ma'r grisie sy'n arwain i fyny i'r granar yn gallu bod reit serth. Dwi'n goro cymryd un cam, traed efo'i gilydd, cam nesa, traed efo'i gilydd a gafael yn dynn yn y wal rhagofn i fi ddisgyn yn ben..dra..mwni..wgl i lawr y grisie.

Dwi'n cofio 'u clywed nw'n mewian a Jam yn canu brandi.

Tu ôl i'r hen baclothe gwlân ydi lle ma'u cartref nw, hefo'r gwair a'r hen wlân yn 'u cadw yn gynnes fel tost bore Sul.

Mi oedd Jam yn eistedd yn hapus braf a'r tair fechan wedi swatio yn gynnes o'i chwmpas. Lliw coch, euraidd ydi Mar, gyda'i thrwyn bach, smwt yn frowngoch. Mae Ma yn fwy coch hefo twtsh bach o felyn gole, gole, melyn neis, cynnes, ddim fel melyn llachar Mr Huws, lolipop. A wedyn ma Led, yr un fach, sy'n frown i gyd ond am ei choes ôl, sy'n wyn. O! Ma nw'n bethe bach del!

Dwi'n cofio edrych i lawr yn dawel ar y teulu bach... ag yn ara bach, mor ara deg bach, dyma'u llygid yn agor. Y llygid delia erioed. Llygid du, tywyll yn disgleirio yn ôl arna i. Debyg i lygid tywyll Mam, oni bai bod rhai Mam yn bellach i ffwrdd, dipyn pellach. Mae llygaid y tair fach yma yn agos, reit o mlaen i, ac am y tro cynta erioed ma nhw'n cal gweld y golau. Yn gweld 'u bywyd o'u blaena. Yn gweld beth sy o'u cwmpas, y byd sydd yn aros.

* * * *

Ellai'm aros i'w gweld nhw! Tybed pa fistimanars ma nw 'di bod yn neud heddiw ma? Ddoe nes i ffendio Mar a Ma yn chware efo hen gynffon a clust oen oedd Dad wedi dorri ar ddiwrnod nodi.

W...dybed? Tybed os ydyn nhw wedi galw diwrnod nodi ar ol Nodi i hun? Ella mai ffermwr odd o ersdalwm. Digon posib.

Mae'n siwr fod Jam wedi hen flino yn trio cadw'r ddesgl yn wastad rhwng y tair ....neu'r tri? W! Fu raid i fi weld os oes gan Mar, Ma a Led wijibo rôl cyrredd adre!

Dad sy'n nôl fi o'r ysgol heno. Ma llygid Mam wedi mynd yn dywyllach, ac yn bellach eto. Ma Mam yn goro mynd am wylie bach i wella, i wella 'i llygid. Udodd Dad wbeth fod y felan arni hi. Dwi'm yn dalld, ydio wbeth i neud efo Elan sy'n blwyddyn 6?

Fu raid fi fynd â tamed bach o fwyd i'r teulu bach heno fud, dybed be neith Dad i swper i fi? Ffishffingyrs gobethio, ma Jam wrth 'i bodd efo rheina, ma bob cath yn mwynhau ffish dydi.

* * * *

Bîns ar dost ges i i swper. Mi odd y bîns yn oer a'r tost fwy fel brechdan. Ond nesi'm deud dim. Dim ond cnoi a llyncu.

Dwi'n methu brechdan ffishffingyrs Mam.

Nes i fynd â bach o fwyd Mot i Jam heno, mi odd hi wedi dotio ag yn llyfu'n llaw i, mi odd o'n cosi run pryd fel fod yna bry' yn cerdded mewn cylchoedd o amgylch fy llaw. Mi oeddwn i yn gallu teimlo ei wisgars hir yn pigo yn erbyn ochr fy llaw. Ma hi'n un ddrwg am roi hoglais i fi! Dwi wrth fy modd yn chwarae piano ar ei ffwr gan symud fy mysedd o nodyn i nodyn. Meddal ac esmwyth. Mae'n atgoffa fi o groen ceirios sy'n tyfu yn gardd Taid a Nain. Mi allwn i roi o-bach iddi drwy'r dydd! Dwi'n edrych allan drwy ffenestr fy lloffd i rwan a dwi'n ei gweld hi'n mynd i hela gan doddi i mewn i'r nos o'n lloffd i. Un glefar ydi Jam.

Mi oedd llygid Mar, Ma a Led wedi agor led y pen heddiw ag yn edrych i fyny arna i. Ma'n neis cael rhywun i edrych i fyny arna i, yn lle edrych am i lawr arna i bob wibshditsh.

* * * *

Ma na wbeth mawr yn bod.

Dydi Mar ddim yn teimlo hanner da. Dwi'm yn meddwl bod hi tri chwarter da, a ma Miss Jems yn deud fod tri chwarter yn fwy na hanner, felly maraid bod Mar yn sal.

Ma Mar yn gorwedd ar lawr ag yn edrych am y pellter, yn edrych i'r gwagle, ma 'i llygid hi yr un mor bell a llygaid Mam. Ella fu raid i Mar fynd ar wylie bach fel Mam.

Nes i ffendio blodau ar cae yr ysgol heddiw ma, llygaid y dydd ydi enwau nw medde Miss Jems. Ma nw'n bethe bach del, petalau gwyn a smotyn mawr melyn yn canol. Dwi wedi neud cadwen i Mam allan ohonyn nhw a ma Dad wedi mynd â hi iddi heno, gobeithio fydd hi'n lecio hi. Gobeithio neith hi wisgo hi rownd ei gwddw ag y daw a bach o'r dydd i'w llygaid.

* * * *

Dwi'n 'i chodi hi, ma hi mor ysgafn â pluen. Paid ag edrych arnai fel yna Jam! Ti'n gwbod y medri di nhrystio i!

O ellai'm coelio fod Mar yn llenwi'n llaw i gyd, pan dwi'n i chosi hi o dan ei gên i drio codi gwên, ddaw na ddim. Dwi'n trio cosi hi o dan ei cheseiliau, fel dwi'n neud i Mam weithie, achos ma hynna'n neud fi chwerthin bob tro! Ond fel Mam, ddaw na run wên.

Dwi'n rhedeg fy mys lawr asgwrn 'i chefn, ma hi mor fach, mor bitw bychan bach, a'i bywyd yn fy nwylo i. Fel hyn oeddwn i pan ges i ngeni ma'n siŵr ynde? Yn dwylo Mam, tybed os o'n i mor ciwt? Oedd Mam yn rhedeg ei llaw i lawr fy nghefn i? Oedd hi'n chwarae hefo moch i? Oedd yn llygid i'n edrych i fyny arni hi fel ma Mar yn edrych arna i rwan? Ei llygaid tywyll, mor bell, bell i ffwrdd.

* * * *

Ma Dad yn deud fod Mam yn gwella, dwi dal ddim yn gwybod be sy. Dad cau deud. Ond

ma'n deud i bod hi ar i ffor adre. Well bod hi'm yn cerdded adre, ma hi'n oer a dydi 'i chot gaeaf ddim efo hi, ma hi'n hongian tu ôl i'r drws lloffd.

Os ydi Mam ar ei ffordd adre, pam eith o ddim i'w chwarfod hi?

* * * *

Dwi'n poeni am Mar.

Ges i ffrau gan Miss Jems heddiw am beidio canolbwyntio a fod 'y mhen i yn y cymylau... ond sut allith o fod? Dwi'n gwbod fod Nain yn deud mod i wedi tyfu, ond ddim gymaint â hynny.

Dwi'n meddwl mod i'n gwybod be i neud, ond mae'n rhaid i mi gadw bob dim i fi fy hun.

Yn bendant ellai'm deud wrth Dad, achos mi nath o foddi y cathod bach dwytha. Boddi nw achos 'u bod nw'n cerdded mewn i wal.

Bore Sul nes i ffendio nw, pedair cath fach ddu mewn bwced mawr, yn arnofio ar ben y dŵr. Wedi marw. Mi oedd 'u cegau nw dal yn lled agored...a'u llygid bach nw'n cysgu. Nes i drio achub nw a tollti'r dŵr ar lawr, odd yn dipyn o job, doeddwn i'm digon cryf nes i fi gicio'r fwced.

Dyma'r dŵr yn llifo ar hyd y llawr fel ffynnon sy'n gwaelod yr ardd yn igam ogamu i bob man, y dŵr yn cael mynd i pa bynnag lwybr ma awydd, pa bynnag drywydd. Dim Dad na Mam yn deud lle i fynd a be i neud, mynd dow-dow.

Mi ddoth Mot a chario'r cathod bach i ffwrdd rhwng ei ddannedd.

* * * *

Dwi'n clywed sŵn tanio y moto beic, Dad sy 'na yn mynd rownd y defaid am y trydydd tro heddiw, diolch byth ei bod hi'n adeg wyna a sgen Dad ddim gormod o amser i fusnesu ar be dwi'n neud felly dwi'n cal dipyn bach o ryddid.

Dwi di neud yn jobsus, wedi rhoi llond dwrn o gêcs defaid i bob corlan fach ag wedi rhoi llaeth i'r oen llywaeth. Ma ne ddau, ond mond un sy'n cymyd yn iawn heb lol. Ma'r llall yn boen yn dîn deud gwir. Dwi'n goro gafael yn 'i geg o a'i fforshio i agor cyn tollti'r llaeth i lawr i gorn gwddw. Sgen Dad ddim mynedd neud hyn, mae o'n defnyddio rw linyn hir efo tiwb ar y pen, ma'n rhoi'r llinyn lawr 'i gorn gwddw ag yn tollti llaeth i lawr, achos dyna sy'n digwydd os ydi ŵyn bach ddim yn yfed.

Dydi Mam ddim yn yfed nac yn bwyta lawer, pan dwi'n cal tost yn bore ma hi'n cal crystun, adeg cinio dwi'n cal taten yn popty, ma hi'n cal y crwyn, i swper pan dwi'n cal llond plât o tships, ma hi'n cal un tshipsan.

Gobeithio bod pwy bynnag sy' efo hi ddim yn dalld bod hi'm yn futwraig fawr ag yn fforshio tiwb lawr 'i chorn gwddw hi, O! Mam druan!

Dwi'n goro aros yn tŷ rwan, rhag ofn i'r fet gyrredd achos ma na ddafad sy' angen ser-serian, dwi'n meddwl mai agor bol ydi hwnnw yn lle bod yr oen yn dod allan trw pen-ôl. Swni'n hoffi gweld y fet wrthi, achos dwi'n mwynhau gwnio.

Ersdalwm pan oedd Mam yn hapus, mi nath hi ddangos i fi sud oedd gwnio, dwi'n cofio hi'n deud mod i'n un reit dda hefo nwylo. Ella mai fet nai fod pan dwi'n fawr...mi fuaswn i'n cael pwytho briwia, a cal creu craith. Rhwbeth i gofio mod i wedi bod achos ma craith yn aros am dipyn hirach ar ôl y briw.

Ma 'na oen bach yn crynu fel jeli coch Nain yn y bocs wrth y rayburn, mi nath Huw ddeud yn 'rysgol ddoe bod 'i Dad yn rhoi'r oen tu mewn i'r aga. Dwi am drio. Ond ma cliced y rayburn yn stiff..a ma'n job agor hi.

W iei! Dyna ni. Reit ta'r hen oen bach, tud di mewn i fama wan i chdi gal cynhesu dipyn bach.

Ma'r oen dal yn wlyb a'r dŵr yn diferu oddi wrtho gan adel pwll o ddŵr ar y teils, mae 'i waed yn dechre cledu ar 'i wlân bach cyrliog, gwlân pitw'n chwyrlio'n debyg i gant o gregyn malwod del.

Ond 'i lygid o ydi'r peth delia, llygid tywyll, ond ma na rywbeth melyn o amgylch nw ac yn 'u gludo nhw efo'i gilydd. Dwi'n trio tynnu'r clwy ond ma'r oen bach yn symud. Trio dy helpu di ydw i oen bach, trio cal ti weld y byd fel y mae o, heb ddim byd yn dy ddallu di.

Tra dwi'n tŷ ar ben fy hun dwi'n dringo'r grisie, dwi wedi hen arfer mynd fyny'r grisie. 1,2,3,4,5,6,7,8,9,10,11, criiic, 12,13. I mewn â fi i loffd Mam a Dad.

Am rw reswm ma nghalon i'n pwmpian yn sydun. Ma bod yn lloffd Mam a Dad yn teimlo'n ddrwg, dwi'n gwybod dwi ddim i fod 'ma.

Ma 'na ogla gwahanol i'r lloffd yma, ogla sy ddim yn perthyn i run stafell arall yn y tŷ. Lloffd fawr ydi hi efo gwely anferthol yng nghanol y stafell, ma 'na lun o Dad a Mam ar y wal, Mam mewn ffrog wen a Dad yn gwisgo tei glas gole. Ma Mam yn edrych mor dlws, ei gwallt yn gyrliog a'i llygaid yn pefrio, mor hapus ei byd ... Mam ydy hi?

Dwi awydd gorwedd lawr ar y gwely i weld sud deimlad ydi bod mewn gwely mor fawr... dwi'n teimlo mod i mewn pwll nofio! Pam fod angen gwely mor fawr? Pam na allen nw gael dau wely bach fel fi?

Dwi'm yn gweld hi'n deg iawn fod Mam yn cal cwmni Dad yn y nos, dwi'n goro bod ar ben fy hun bach yn y tywyllwch, hefo'r bwci-bos. Ma Mam yn lwcus ma gen hi Dad i edrych ar 'i hôl hi. Pam mod i'n goro cysgu mewn stafell ar ben fy hun, mewn gwely ar ben fy hun? Ma Anni yn deud fod Dad hi yn cysgu ar soffa, maraid fod Mam Anni yn fwy dewr na Mam fi.

Dwi'n gwybod lle odd Mam yn cadw 'i thabledi achos oni'n gweld hi'n 'u cymeryd nhw o'n lloffd i bob nos, yr un amser. Mi odd bys mawr cloc fy lloffd i ar 12 a bys bach ar 7. Mi fuasa hi'n agor y botel, rhoi tabled yn ei cheg ac yn cael llymed o ddŵr i olchi'r dabled i lawr cyn cau'r dror a throi i ddod i'n lloffd i ddweud nos da a rhoi sws ar 'y nhrwyn i. Dwi'n methu sws nos da Mam bob nos. Dwi'm yn cysgu'n iawn heb y sws nos da. Does na ddim sws i selio y diwrnod ddim mwy.

Dwi'n sefyll ar ben y stôl ac yn tynnu'r dror drom allan. Potel las ydi hi yn cuddiad yng nghanol nicyrs Mam. Mai'n gythgam o job agor hi. Dwi am drio tair gwaith, ma Dad wasdad yn deud tri cynnig i Gymro, dwi'n geshio fod yr un peth i Gymraes... Ffiw! Dwi'n 'i hagor hi!

Dwi am roi dwy dabled ym mhoced ôl fy dyngaris, cau'r botel a'i rhoi'n ôl yng nhgrombil y dror. Clepian drws y lloffd ar fy ôl cyn cymeryd dau gam yr un i bob gris.

13, 12, criiiic, 11, 10, 9, 8, 7, 6, 5, 4, 3, 2, 1.

* * * *

Dwi'n cofio gweld Dad yn torri tabledi yn bowdr ersdalwm a'u rhoi nw yn llaeth yr oen llywaeth. Mi oedd yr oen wasdad yn gwella. Ma di neud run peth i Mot cyn heddiw fud, hawdd ydi cuddiad pethe pan fydd angen.

Yn y granar mae 'na hen fwrthwl yn crogi wrth y drws. Dwi'n estyn y tabledi o un boced y dyngaris a'r botel ddoli o'r boced arall. Chwalu'r tabledi efo'r mwrthwl ag yn rhoi llond llaw o'r powdr yn y llaeth. Dwi am roi bach o laeth ar fy mraich. Dwi'm yn siwr iawn pam, ond dyne ma Mame yn neud efo babis bach, a ma Mar yn fabi bach a fi ydi 'i Mam hi.

Ma Mar, Ma a Led yn cysgu'n drwm. Dwi'n codi Mar i fyny yn ofalus, ofalus, ma hi'n deffro ond dal wedi ymlacio, dwi yn agor ei cheg fel dwi'n neud hefo'r oen llywath, cyn tollti'r botel laeth i lawr. Dydi'm yn joban hawdd, ma'i thafod hi o'r ffordd. Ond cyn pen dim dwi'n llwyddo a ma rhan fwya o'r llaeth wedi mynd! Hwre! Dwi'n rhoi Mar yn ôl i lawr yn ddiogel, yn ôl at ei dwy chwaer.

* * * *

Ellai'm coelio bod fy nghynllun i heb weithio! Yn syth ar ôl rhoi llaeth i Mar dyma hi'n chwydu'r holl beth yn ôl i fyny! Biti, a finna yn meddwl y buasai'n ei gwella. Bechod.

* * * *

Ma Mam wir ar ei ffordd yn ôl adre! Mae hi'n cyrradd pnawn 'ma a mi fydd hi yma pan fydda i adre, ma heddiw yn mynd mor ara deg, y cloc ysgol yn tic tocian a run bys yn symud digon cyflym ...

Dwi mor falch o gael gweld Mam adre. Ges i ffishffingyrs i swper a nes i fynd â darn i Jam. Mi odd hi wrth ei bodd. Oni mor falch o gael gweld Mam yn ôl adre nes i ddechre crio, crio a crio nes oeddwn i'n crynu, mi ddoth fy nghyfrinach i allan, o flaen Mam a Dad. Oni'n poeni fod Dad am fynd yn flin hefo fi, ond dwi'n meddwl fod o hefyd mor falch o gael ffishffingyrs i swper nes nath o ddim deud dim.

* * * *

Es i a Mam i fyny i'r granar a dangos lle ma Jam, Mar, Ma a Led. Doedd Jam ddim yn ru siwr i ddechre...ddim yn nabod Mam, ond ar ôl i mi roi o-bach iddi dyma hi'n dod at ei choed yn iawn. Mi ath Mam ar ei phedwar ar y llawr a'i llygaid wedi goleuo fyny! Dwi'n siwr 'i bod hi wedi dotio gymaint â fi.

Ma Mar yn dechre gwella, fydd hi'm yn hollol iawn am bach mashwr, ond o leia ma hi'n gwella, ma hi ar y ffordd iawn i wella, run fath â Mam. Dwi wedi methu Mam yn ofnadwy, mi udodd hi fod hi wedi methu fi a Dad hefyd. Mi ddudodd hi fod yne ddim byd fel bod yn ôl adre, lle mae hi fod.

Ma Mam yn llygad ei lle.

## Penegoes

Mrs Olwen Roberts, Tegfan
01654 702616

**Penblwyddi Arbennig**
Llongyfarchiadau i Heather Davies, Rhos Helyg, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill. Bydd Malen, Maes y Neuadd yn ddeunaw oed ar Fai'r 29ain hefyd. Pob hwyl iti, Malen.

**Croeso**
Croeso cynnes i Dean a Leah Johnson a'r teulu bach sydd wedi symud i fyw i 'Cartref', gan obeithio eich bod wedi setlo yma yn y pentref.

**Cydymdeimlo**
Daeth y newyddion trist am farwolaeth Willie Pughe, Bwlchlluan, wedi cystudd hir yn Ysbyty Bronglais, ac yna yn Ysbyty Twymyn, lle cafodd ofal arbennig. Cydymdeimlwn â Mairwen yn ei hiraeth, a fu'n ymweld yn ddyddiol ag ef yn yr ysbyty, hyd nes i'r feirws ei hatal. Cofiwn am Gwenfair, Dafydd, John a Rwth a'u teuluoedd yn eu tristwch o golli tad a thaid hoffus.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu Brynclygo a Gallt-y-llan yn eu profedigaeth o golli Richard Davies, neu Richard Brynclygo, ac yntau' 93 oed. Siŵr y bydd ei ffrindiau yn gweld ei golli yng Nghaffi Maengwyn, ac aml un arall a arferai sgwrsio â fo gan fod ganddo rywbeth difyr i'w ddweud wrthych bob amser.

Cydymdeimlwn hefyd â Gareth Evans, Llys Garwen, sydd wedi colli cyfnither, Awen Jones o'r Drenewydd. Cofiwn amdani hi a'i theulu yn byw yn yr hen siop neu 14 Fronheulog.

Cofiwn hefyd am Dei a Margaret Price, 8 Maesafallon ac Arwel ac Alwena Price, Hafod y Ddôl, hwythau wedi colli cefnder annwyl iawn sef, Stanley Price o Gemaes.

**Diolch**
Rhaid diolch i ferched y pentref, Julie, Gaynor, Lynn a Catherine a fu'n brysur yn coginio a dosbarthu cacennau bach i'r rhai sy'n hunan-ynysu ar ben eu hunain yn eu cartrefi ar amser mor ofidus. Diolch hefyd i bawb sydd mor barod i wneud cymwynasau. Mae effaith y feirws yn cyffwrdd â'n bywydau ni i gyd.
Hefyd mae trigolion y pentref yn dod at ei gilydd bob nos Iau i gymeradwyo'r Gwasanaeth Iechyd am eu gwaith di-flino. Mae'r amser yma'n sicr yn dod a'r gorau allan o bobl.

**Newyddion rhifyn Mehefin i'w dderbyn erbyn dydd Sul, 7fed o Fehefin os gwelwch yn dda.**

# Hanes, Dywediadau ac Idiomau'r Ardal – I'w cofnodi a'u cadw!

## Parhad: Y Gwylliaid yn Ardal Mawddwy

Gan Huw Jones, Tŷ Mawr, Mallwyd

Yr hanes yw i Lewis Owen ddod i Gwm Dugoed ar Noswyl Nadolig 1554 a dal 80 o'r gwylliaid. Tra mae yna ddamcaniaeth iddynt wynebu'r gyfraith yn y Llys yn y Trallwng, y traddodiad ydy iddynt gael eu crogi mewn rhan o goedwig yng Nghwm Dugoed ac mae'r safle i'w weld hyd heddiw ger ffermdy a elwir Collfryn.

Cynhyrchwyd ffilmiau yn niwedd y 1930au sydd yn rhoi'r damcaniaeth yma yn glir inni, yn arbennig yr un digwyddiad penodol ar y Noswyl Nadolig honno yn 1554. Dangoswyd y ffilmiau, gyda llaw, yn Neuadd Dinas Mawddwy rai blynyddoedd yn ôl, Roeddynt o ddiddordeb arbennig i drigolion yr ardal, o gofio bod nifer o'r ardal, yn arbennig Llanymawddwy wedi cael cyfle i actio yn y ffilm.

Y ddelwedd draddodiadol o'r Gwylliaid yw eu bod yn rhai cryf, cyflym, gwyllt, diegwyddor, diamynedd, yn lladrata a rheibio, yn gelfydd iawn gyda bwa a saeth, Beth welwn ni yn y ffilm ydi dwyn defaid, ymosod ar ffermwyr, ffermwyr yn rhybuddio eu cymdogion fod y Gwylliaid o gwmpas ac yn rhoi'r gwartheg i mewn dan do, dangos ffermwyr yn rhoi pladuriau yn y simnai i rwystro Gwylliaid rhag dod i mewn, mae yna ddangos y Barwn yn cyrraedd i ymdrin â'r Gwylliaid, ffermwyr yn rhoi tystiolaeth, ac mae yna gyfeirio at y crogi. Mae yna un peth yn benodol, sef un fam yn pledio ar y Barwn i arbed bywyd ei mab. Un o'r gwylliaid oedd John Goch a oedd yn ifanc iawn ac roedd ei fam yn pledio ar y Barwn Owen, gan ei fod mor ifanc, i arbed ei fywyd. Ond doedd dim troi arno ac fe grogwyd John Goch fel gweddill y gwylliaid. Fodd bynnag dywedodd y fam ei bod wedi magu meibion eraill fyddai'n dial am y weithred yma, ac yn golchi dwylo yn ei waed o - roedd bygythiad y byddai yna ddial cyn diwedd y flwyddyn ganlynol.

Y traddodiad ydy fod y Barwn Lewis Owen wedi mynd i'r Trallwm i gyfarfod Richard Mytton, Arglwydd Mawddwy ar y pryd, ac ar gyfer trefnu priodas ei fab gyda merch Richard Mytton. Wrth ddychwelyd i'r Plas yn Dre, Dolgellau ar 12 Hydref 1555, daeth dros Fwlch y Fedwen i gyfeiriad y Dinas, dros geunant yr Afon Clywedog ac wrth deithio gyda'i osgordd, rhwng y coed derw hynafol, o'i flaen roedd criw o'r Gwylliaid yn ei aros. Disgynnodd derwen o'u blaen a chyn iddynt gael cyfle i ddianc, cwympodd derwen arall y tu ôl iddynt. Taflwyd cawod o saethau - yn ôl yr hanes trawyd y Barwn ddeg ar hugain o weithiau. Mae traddodiad yn dweud ei fod wedi herio'r Gwylliaid er ei fod wedi ei anafu yn ddifrifol, gan dynnu un saeth o'i wyneb ei hun, a'i thorri yn ddau ddarn. Er gwaetha ymdrechion i'w achub, roedd y cyfan yn ofer. Roedd y Barwn Lewis Owen o'r Plas yn Dre Dolgellau yn gelain farw. Cofiodd meibion y fam oedd wedi apelio ar y Barwn y noswyl Nadolig y flwyddyn cynt am yr addewid. Fe olchwyd dwylo yng ngwaed y Barwn Lewis Owen - roedd y dial yn gyflawn. Gelwir y safle lle mae yna lidiart terfyn i'r ffordd yn 'Llidiart y Barwn' hyd heddiw. Codwyd croes ar y ffridd gerllaw i gofnodi safle'r llofruddiaeth, ac fe elwir y ffridd honno yn 'Ffridd Groes' hyd heddiw.

Yn ôl yr hanes dyma'r olaf o orchestion y Gwylliaid a danfonwyd criw eithriadol o rymus i'w gwaredu. Llwyddodd rhai i ddianc yn ôl yr hanes a chael ymgeledd ar Fferm y Gwanas, ger Dolgellau, gan y ffermwr yno ar y pryd, Siôn Rhydderch. Ond eu bradychu a wnaeth o yn y diwedd a'u rhoi yn nwylo'r awdurdodau. Yn wir yn ôl yr hanes fe gododd dihareb yn yr ardal "Mor ddau wynebog a Siôn Rhydderch". Dyma ond un hanesyn diddorol am y Gwylliaid.

Yn ôl yr haneswyr rydym yn gwybod i sicrwydd enw'r 8 gwr a gyhuddwyd ac a gosbwyd am lofruddiaeth Lewis Owen, gan iddynt gael eu henwi gan reithgor Meirionnydd yn y Sesiwn Fawr ar 6ed Gorffennaf 1556.

Y cyhuddedig oedd: Gruffydd Wyn ap Dafydd ap Gutyn o Brithdir (gyda Bilwg yn ei feddiant); Elis ap Tudur o Nanau (efo cleddyf yn ei ddwy law); Robert ap Rhys ap Hywel o Fawddwy (gyda bilwg); Siencyn ap Einion (gyda bwa ac un saeth); Dafydd Gwyn ap Gruffydd ap Huw o Fawddwy (hefyd gyda bwa ac un saeth yn ei ddwylo); Morris Goch o Gemaes (gyda chleddyf); Ieuan Thomas o Lanwddyn (gyda dagr yn ei feddiant); John Goch ap Gruffydd ap Huw o Fawddwy (efo gwaywffon a drawodd y Barwn). Yr unigolyn olaf yma a gyhuddwyd o lofruddio Lewis Owen.

**parhad ...**

## Hanes, Dywediadau ac Idiomau'r Ardal – I'w cofnodi a'u cadw!

O ystyried ffeithiau'r Achos Llys yn fanylach, mae'n werth nodi dwy ffaith arbennig. Yn gyntaf fod y rhai a gyhuddwyd o ardal ehangach na Chwm Dugoed ac yn ail, ac yn fwyaf arbennig, fod pob un ohonynt yn "iwmyn". Roedd gan Iwmyn yn y cyfnod dan sylw safle gweddol freintiedig o fewn cymdeithas. Roeddent yn sicr yn ymwybodol o'i hawliau a'i rhyddid. Felly, gwyddom nad herwyr na gwylliaid cyffredin oedd y rhai a laddodd y Barwn Owen ond pobl gyfrifol a phenaethiaid teuluoedd.

Fe fu llawer o ganu marwnad gan y beirdd wedi'r llofruddiaeth sydd yn mynegi tristwch a chwerwder am golli arweinydd cymdeithas, a oedd, yn eu tyb hwy, yn arweinydd cymdeithasol cyfiawn a theg, a noddwr hael. Mynegwyd siom a dicter difrifol am y digwyddiad. Dyna fyddai'r beirdd yn gweld fel ei dyletswydd a'i gwaith, wrth gwrs. Canu mawl oedd un o brif themâu beirdd Cymru - canmol dewrder, a chodi yn uchel enwau teuluoedd uchelwrol fel teulu'r Llwyn Dolgellau. Roedd yna ddangos parch i'r noddwr. Roedd Owain Gwynedd yn un o'r beirdd hynny oedd yn cyfeirio at y Barwn fel un oedd yn ceisio rhoi trefn ar gymdeithas;

> Cadw'r oedd acw, od yw raid,
> Rhag herwyr, y cywiriaid,
> Amau'r oedd ymwareddiad,
> A bwrw i lawr beiau'r wlad.

Nid oes dim o'r fath beth wedi ei sgwennu am y Gwylliaid eu hunain wrth gwrs - ac nid oes dim yn annisgwyl am hynny. Ychydig iawn sydd wedi ei sgwennu am amgylchiadau'r rhai mwy israddol mewn cymdeithas. Felly, yn sicr nid fel arwyr y gwelwyd y Gwylliaid Cochion hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg. Cof gwlad i raddau helaeth iawn sydd wedi gwneud arwyr o'r Gwylliaid.

Mae'n werth sôn yma am un gerdd y mae'r Athro Arfon Rees yn sôn amdani yn ei lyfr, Mi fyddai'n egluro ymhen ychydig fod stori'r Gwylliaid yn cynrychioli gwrthwynebiad y Cymry i orthrwm cyfraith Lloegr – mae Arfon Rees yn dweud fod yna fardd sy'n hanu o Forgannwg sy'n sôn am y dinistr o weld gwŷr busnes Seisnig yn torri coed yn Glyn Cynon i gael siarcol i fwydo'r gweithfeydd haearn newydd;

> Gwell y dylsai'r Saeson fod
> Yngrog, neu yng ngwaelod eigion,
> Uffern boen, yn cadw eu plas
> Na thorri glas Glyn Cynon.

> Clywais ddwedyd ar fy llw
> Fod haid o'r ceirw cochion
> Yn oer eu lle, yn ymwado a'u plwy
> I Ddugoed Mawddwy'r aethon.

Yn wir, ar y cyfan, ychydig yn anffafriol y rhoddwyd portread o'r Gwylliaid mewn erthyglau a hanesion hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond efo treigl amser, ac yn ystod yr ugeinfed ganrif, gwelir fod y ddelwedd yn raddol newid, a bod yna agwedd wahanol a mwy cydymdeimladwy. Nid nad oedd yna gydnabod fod y Gwylliaid yn rhai drwg, ond fod yna weld rhywsut paham eu bod wedi cyflawni'r fath droseddau.

Mi soniais i hefyd yn gynharach fel yr oedd Y Barwn Owen, yn y 1550au ym mhinacl ei yrfa, ac mor bwysig iddo oedd dyrchafu ei enw da a chynyddu ei statws cymdeithasol. Yn ôl hanesion, roedd o wedi meddiannu llawer o diroedd yn ardal Dolgellau. I'w ddwylo ef yr aeth llawer o diroedd ar ôl diddymu'r Abatai. Yn sicr roedd ei safle fel Barwn o fantais iddo, a dywedir ei fod yn berchen ar dir o werth sylweddol. Mae yna ddehongliad mai asgwrn y gynnen am yr holl atgasedd yn ei erbyn oedd ffrae rhwng teulu Lewis Owen a theulu o ardal Mawddwy ynglŷn â pherchnogaeth darn o dir – yn Abaty Cymer, Dolgellau. Mae'n bosib mae'r cecru yma, a ddatblygodd wedyn yn gasineb tuag at y Barwn ymysg trigolion Mawddwy. Rhaid inni gofio fod yna wahaniaethau mawr rhwng dosbarthiadau cymdeithasol y cyfnod hwn, a bod hyn yn anorfod yn arwain at genfigen o gyfeiriad dosbarthiadau llai breintiedig.

Felly, y ddelwedd draddodiadol o'r Gwylliaid ydi eu bod nhw'n ddrwgweithredwyr creulon, ac yn meddwl dim am saethu unrhyw un, yn lladrata a llofruddio ayyb. Hynny yw, mae'n bosib fod yna elfen o wir yn hyn, ond yn yr erthyglau a gawn am hanes Cymru yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, rhoddir y farn fod y Gwylliaid wedi cael eu sathru dan draed ac mai dyma oedd tu ôl y ffaith eu bod yn torri'r gyfraith. Tipyn o newid agwedd felly, ac yn sicr rhaid inni ystyried cyd-destun ehangach o weld twf mewn meddylfryd Cymreig, twf rhyddfrydiaeth ac yna cenedlaetholdeb Cymreig.

Does dim dwywaith fod yna ddiddordeb cynhenid gan drigolion Mawddwy a'r Dugoed yn hanes y Gwylliaid ac mae 'Gwylliaid Cochion Mawddwy' yn sicr yn destun balchder erbyn hyn. Mae yn sicr yn cael ei ystyried yn rhan annatod o draddodiad ardal Mawddwy.

## Aberhosan

Mrs Eryl Evans, Pen-y-glôg
01654 702033
penyglog@gmail.com

Rydym i gyd dal dan orchymyn i gadw adre a'r rhagolygon ydy mai fel hynny y bydd hi am amser eto. Mae Ebrill wedi bod yn fis hynod o braf a sych o ran tywydd sydd wedi ei gwneud hi'n braf i fedru mynd allan i'r awyr iach am dro. Ond, mi fyddai cawod neu ddwy o law yn reit dderbyniol i'r caeau a'r gerddi. Os oes gennych newyddion neu stori i'w roi yn y *Blewyn* codwch y ffôn neu e-bostiwch i mi os gwelwch yn dda. Cadwch yn saff pawb.

**Llongyfarchiadau**
I Robyn ac Aneira, Llety Ifan ar enedigaeth ei merch fach gyntaf-anedig, Eos Aneira, ar 25ain Ebrill. Wyres fach annwyl arall i Dei ac Eryl, a nith i Yncl Thomas, Penyglôg. Mae Anti Lynwen, Yncl Harry a Lowri yn enwedig yn edrych ymlaen yn fawr at fedru cael dod adre i gwrdd ag Eos fach. Llongyfarchiadau mawr a braf yw cael newyddion da yn y cyfnod anodd yma.



Eos Aneira

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Rwth, Dafydd a'r teulu, Brynhyfryd yn eich hiraeth o golli tad a thad annwyl iawn, sef Willie Pughe, Bwlchlluan, Penegoes. Rydym fel ardal yn meddwl amdanoch.

# Clirio'r Cypyrddau?

Dwi wedi bod yn clirio cypyrddau yn y gegin, a darganfod heb duniau bisgedi a thaffis yn llawn o ryseitiau fy mam (o fy nghartref yn Chwilog), ac yn eu plith roedd llawer o doriadau o'r Herald Gymraeg o'r 1940au a'r 50au. Yno deuthum o hyd i un llythyr a anfonwyd i'r Herald gan Mrs J. Breese, Penbanc, Aberangell! Dyma gopi o'r toriad - ei llythyr a'r rysáit i wneud 'Cacen Ryfel'.


****

Ac yrŵan am rywbeth mwy amserol! Cyfarwyddyd am gacen flasus oddi wrth Mrs J. Breese, Penybanc, Aberangell, Machynlleth. Gallaf ddiolch yn bersonol i Mrs Breese am ei chynnig, oherwydd rhoddais brawf arno brynhawn Sadwrn er fy mod braidd yn amheus o ferwi'r siwgr, y braster a'r ffrwythau! Ond cefais fy mhlesio'n fawr a'r canlyniad a rhaid i mi ddweud mai dyma'r gacen orau imi ei phrofi ers amser maith. Dyma'r llythyr:

"Fel derbynnydd cyson o'r 'Cymro', yr oeddwn yn meddwl efallai y buasai'r 'recipe' canlynol yn help i ryw rai eraill fel y bu i mi.
Defnyddiau :-
Llond cwpan o ffrwythau sych
Llond cwpan o siwgr (neu lai os y defnyddio ychydig driagl du)
Llond cwpan o ddŵr
2 llond cwpan o flawd hunan-godi
¼ pwys o fraster coginio
½ llwy de o "bicarbonate of soda"
Pinsied o halen
Hanner nutmeg (wedi ei ratio)
Llond llwy de o berlysiau cymysg
½ llwy de o bowdwr sinsur
Berwch y ffrwythau, siwgr a'r braster am chwarter awr. Gadewch iddo led-oeri ac yna ychwanegwch yn araf y blawd (drwy ridyll) a'r defnyddiau eraill. Rhowch mewn tun wedi ei iro i grasu mewn popty gweddol boeth am o awr a chwarter i awr a hanner."

Bydd bendith ar eich pen, Mrs Breese, bob tro y rhown y gacen yma ar y bwrdd. Diolch.

****


CACEN RHYFEL.
Ac yrwan am rywbeth mwy amserol! Cyfarwyddyd am gacen flasus oddi wrth Mrs. J. Breese, Penybanc, Aberangell, Machynlleth. Gallaf ddiolch yn bersonol i Mrs. Breese am ei chynnig, oherwydd rhoddais brawf arno brynhawn Sadwrn er fy mod braidd yn amheus o ferwi'r siwgr, y braster, a ffrwythau! Ond cefais fy mhlesio'n fawr a'r canlyniad a rhaid imi ddweud mai dyna'r gacen orau imi ei phrofi ers amser maith. Dyma'r llythyr:

"Fel derbynydd cyson o'r 'Cymro,' yr oeddwn yn meddwl efallai y buasai'r 'recipe' canlynol yn help i ryw rai eraill fel y bu i mi. Defnyddiau:—
Llond cwpan o ffrwythau sych
Llond cwpan o siwgr (neu lai os y defnyddiwch ychydig driagl du)
Llond cwpan o ddwr
2 llond cwpan o flawd hunan-godi
¼ pwys o fraster coginio
½ llond llwy de o "bicarbonate of soda"
Pinsied o halen
Hanner nutmeg (wedi ei ratio)
Llond llwy de o berlysiau cymysg
½ llond llwy de o bowdwr sinsur.
Berwch y ffrwythau, siwgr a'r braster am chwarter awr. Gadewch iddo led-oeri ac yna ychwanegwch yn araf y blawd (drwy ridyll). a'r defnyddiau eraill. Rhowch mewn tun wedi ei iro i grasu mewn pobty gweddol boeth am o awr a chwarter i awr a hanner.
Bydd bendith ar eich pen, Mrs. Breese, bob tro y rhown y gacen yma ar y bwrdd. Diolch.




**Tun taffis/fferins nodweddiadol o'r 1950au**

Does dim byd tebyg i'r hen ryseitiau di-lol a syml! Beth am roi cynnig arni? Tybed oes gan rai o'r darllenwyr gysylltiadau â Mrs Breese?

*Diolch yn fawr i chi, Magwen Pughe, Rhydyraderyn am anfon yr erthygl fach yma atom! Faint fwy ohonoch sydd wedi dod o hyd i drugareddau wrth glirio'r cypyrddau dros y cyfnod yma? Anfonwch eich hanesion atom!*

## Cacen Ffebrins Nigeiola!

Faint ohonoch sydd wedi rhoi cynnig ar gacen ffebrins Nigeiola o rifyn Ebrill ***Blewyn o Obaith***? Wel mae un darllenydd o Lanelli rhoi tro ar ei gwneud ac yn canmol y rysáit fel "pwdin perffaith"! Tybed faint mwy o gacennau ffebrins Nigeiola sydd wedi'u bwyta dros y mis diwetha'?!



# Pennal

**Canolfan Pennal**
**Diwrnod V.E.**
Dyma lun o barti stryd o flaen y Marian a lle mae'r Ganolfan heddiw, i groesawu dau frawd ddaeth adre yn ôl o'r rhyfel, sef Lewis Jones a Tommy Jones. Roedd llawer o'r rhai oedd yn byw yn Rhes y Marian ar y pryd yn perthyn i'w gilydd. Roedd Lewis yn dad i Bethan Humphreys, Aberdyfi ac yn ewythr i Annwen Jones, Cwrt, a Tommy hefyd yn ewythr i'r ddwy ohonynt.
Gwelir Lewis ar y dde, yna'i wraig Morwena, yna Tommy Jones. Wrth ei ochr o mae Annwen yn lodes fach a'i ffrind Glyn Davies, 1 Tower Road. Mae'r gweddill yn deulu a thrigolion y stryd a rhai o'r pentref.

Roedd bwriad i gael te ar y stryd i gofio am y digwyddiad ac am ran aberth cymaint yn y rhyfel. Efallai daw cyfle eto rhyw dro i gael dathliad o flaen y Ganolfan.



**Geni**
Llongyfarchiadau i Ben a Jess, 11 Felindre, ar enedigaeth mab bach sef, Rory.
Llongyfarchiadau hefyd i George a Claire Barrett, Coppins, Felindre, ar ddyfod yn daid a nain unwaith yn rhagor.
Dymuniadau gorau hefyd i Cyril a Llinos Humphreys, Y Fron, ar ddyfod yn hen daid a nain unwaith yn rhagor gyda geni Mia Vivien i Aled a Jessica yn Seland Newydd.

**Cydymdeimlo**
Trawyd cymuned y Cwrt a thu hwnt gan farwolaeth trist Huw Llywelyn Jones, Awel Dyfi, ddiwedd mis Ebrill wedi gwaeledd hir. Yn frodor o Gorris, roedd wedi byw a gweithio ers nifer helaeth o flynyddoedd ym Mhennal ac roedd yn adnabydus iawn yn ei gymuned. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig, Annwen Jones ac â'i deulu, cymdogion a chyfeillion i gyd.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau i Mrs Beryl Griffiths, Tŷ Gwyn, sydd wedi bod am ychydig yn Ysbyty Bronglais.

# Dysgwr y mis – Kym ap Rhys



Mae fy mhartner a minnau'n byw yn Ffriddfawr Uchaf, ffermdy ger Commins Coch. Dan ni'n rhedeg busnes bach yn gwneud eitemau pren wedi'u troi. Dw i'n mwynhau gwau, darllen, a dysgu Cymraeg yn fy amser sbâr.

**Ble a sut aethoch chi ati i ddysgu Cymraeg?**
Symudais i i Gymru yn 2005 efo fy mhartner, Pwl. Daethon ni o hyd i ddosbarth Cymraeg ym Machynlleth yn 2006, ond nid oedd digon o fyfyrwyr i ddal ati ar ôl y ddwy flynedd gyntaf. Gwnaethon ni ymuno â dosbarth arall, ddysgwyd gan Sue Evans, ac aros gyda hynny tan y llynedd, pan aeth Pwl yn sâl. Dw i wedi bod yn parhau i adolygu gan ddefnyddio DuoLingo ar ffôn symudol!

**Sut mae dysgu Cymraeg wedi newid eich bywyd?**
Dw i'n amau y byddwn wedi mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala neu unrhyw ddigwyddiadau Cymraeg eraill pe na bawn wedi bod yn dysgu Cymraeg.

**Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg?**
Dw i'n meddwl mai'r peth anoddaf am ddysgu Cymraeg yw strwythur gramadegol gwahanol yr iaith o'i chymharu â'r Saesneg

**Oes ganddoch chi hoff gân Gymraeg?**
Oes. Dw i'n hoffi 'Yma O Hyd' gan Dafydd Iwan ac Ar Log.

**Beth ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?**
Dw i'n mwynhau dysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy'r iaith.


**Pam bod dysgu Cymraeg yn bwysig i chi?**
Symudais i Gymru, felly dw i'n teimlo dylwn i ddysgu iaith y wlad.

**Oes unrhyw beth all ein darllenwyr ei wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?**
Dylai eich darllenwyr siarad Cymraeg ag unrhyw ddysgwyr maen nhw'n cwrdd â nhw!

**Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?**
Hiraeth, bendigedig, a sboncen, ydy fy hoff eirau Cymraeg.

# Atgofion o'r Arwerthiant

Fe gysylltodd Susan Griffiths, Fronwen wedi iddi weld poster ocsiwn Dolfonddu yn rhifyn Ebrill, gyda'r atgofion canlynol: "Wrth fy modd yn gweld poster ocsiwn Dolfonddu yn 1952. Mae'r atgofion i gyd yn fyw iawn. Dyma fy ocsiwn gyntaf. Er nad oeddwn ond wyth oed, dwi'n cofio Mam yn fy annog i godi fy llaw a rhoi 'bid' ar jwg bach gyda iâr fach ynddo. Does gen i ddim syniad beth ddigwyddodd i'r jwg ond rwy'n cofio'r iâr fach mewn cwpan flynyddoedd yn ddiweddarach. Cofio hefyd Mam a Dad yn sgwrsio gyda Gwen, mam Kit. Dyna oedd dechrau fy niddordeb mewn hen bethau."



DOLFONDDU

Cemmaes. Close to the village, 2 miles Cemmaes Road, 7 Machynlleth.

On THURSDAY, JUNE 26th, 1952

Important Dispersion of

LIVE and DEAD FARMING STOCK and HOUSEHOLD FURNITURE

by order of Mrs. Lloyd-Roberts and Mr. W. T. Williams.

Comprising:

60 Young Welsh EWES

with forward lambs by Wiltshire Rams.

20 Welsh Wether Hogs

THE ATTESTED HERD OF

37 SHORTHORN, AYRSHIRE, and CROSSBRED CATTLE

Viz: 4 Cows in full milk, 5 Barren Cows, 15 grand 2-year-old Heifers, Strong 3-year-old Bullock, 12 Weanlings, 6 to 10 months old.

Valuable Vanner Mare

Smart 2-year-old 11.2 hands PONY

9 Ducks, Poultry Houses, etc.

A Collection of

MODERN FARM IMPLEMENTS

including: 2 Tractors, Hay Loader, Corn Drill and other Harvesting and Cultivating Implements, Waggons, Carts.

Also a quantity of

HOUSEHOLD FURNITURE

including: Valuable items in Old Mahogany and Oak, Settees and Easy Chairs, Bedsteads and Bedroom Furnishings, Silver and Plated Goods, Lustre Ware, Brass and Copper items, Glass and China, Kitchen Requisites, Dairy Vessels, etc.

Sale to commence at One o'clock.

Furniture at 3 p.m.

Refreshments provided by Mr. J. S. Williams, Grapes Inn, Welshpool.

Morris, Marshall & Poole, F.A.I.

Chartered Auctioneers, Welshpool, Newtown and Aberystwyth.

# Llanwrin

Mrs Heulwen Williams, Maes-y-Creiau 01650 511585
ifanwilliams13@gmail.com




**Pen-blwydd Arbennig**
Bu William, Hendreseifion yn dathlu pen-blwydd arbennig ganol y mis. Gobeithio iti fwynhau dathlu'r deugain, Wil, a dwi'n siŵr y bydd mwy o ddathlu pan ddaw'r cyfnod yma i ben.

**Blewyn Glas**
cysylltwch â ni
**papurblewynglas@gmail.com**

# Tudalen y Plant

Wel blant, rwy'n siwr eich bod yn mwynhau'r tywydd braf ar hyn o bryd ac yn mwynhau gallu mynd allan am dro neu i'r ardd i chwarae. Beth am gymryd saib o'r gwaith ysgol am ychydig a rhoi cynnig ar y gweithgareddau yma. Lliwiwch lun yr hufen iâ neu chwiliwch am y geiriau sy'n cuddio yn y chwilair. Diolch i *Twinkl Cymru* am yr adnoddau.

## Gwanwyn




| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c | e | n | n | i | n | p | e | d | r | k | l |
| b | n | o | p | c | u | a | t | c | y | w | o |
| l | z | a | g | c | a | e | f | g | w | i | e |
| o | l | b | l | a | g | u | r | a | t | u | n |
| d | x | y | a | a | b | t | d | w | f | b | h |
| e | j | k | w | m | n | y | p | q | r | l | t |
| u | v | a | x | s | z | f | b | c | c | o | f |
| y | h | i | j | k | l | u | n | o | p | d | r |
| n | p | i | l | i | p | a | l | a | b | a | d |
| e | f | c | h | i | j | k | y | a | n | u | p |
| q | r | s | g | w | a | n | w | y | n | a | b |
| c | d | a | f | g | h | i | j | s | l | m | n |



oen
tyfu
cyw
glaw

pili-pala
blagur
cennin pedr
blodeuyn

blodau
gwanwyn







Beca Tudur a'i llun lliwgar



Anni, Beca ac Ela Sion, Pennant gyda'u gwaith celf i ddathlu diwrnod VE.




Elain Rhys, Y Felin, Llanymawddwy efo'i henfys o ddiolch



Mae Meida Ceridwen, Cock Shed, Llanwrin yn rhy fach i beintio enfys, felly mae hi'n gwisgo gwisg enfys yn lle!




Siwan a Gwenllian, Dolfawr, Pandy, Llanbrynmair.




## Mallwyd

Mrs Eirian Jones, Henllys . 01650 531405
huwjones792@ btinternet.com

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau mawr i Jo Gingell ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws Rhyddiaith yn Eisteddfod y Dysgwyr Ceredigion, Powys a Sir Gâr 2020 – ar y testun 'Cyfle'.

Dyma lun o Jo yn derbyn ei thystysgrif a dyma ychydig o'i hanes. Mae hi bellach wedi ymgartrefu ym Mallwyd.



"Symudodd fy ngŵr a minnau yma yn 2016, gyda dau gi, dwy ferlen a dwy ddafad, o Lydaw a chyn hynny o Wlad yr Haf. Dechreuais ddysgu Cymraeg fel anrheg i mi fy hun y Nadolig hwnnw, ar y dechrau dim ond i ymladd dementia! Buan iawn daeth o'n obsesiwn, a gyda chefnogaeth ddiflino dau diwtor anhygoel, rydw i wedi caru pob munud o'r dysgu. Yn anffodus, nid yw fy ngallu i siarad Cymraeg yn dda iawn, felly penderfynais ganolbwyntio ar hynny eleni - nid y flwyddyn orau o ddewis pan allwn ond siarad â›n gilydd ar gyfrifiaduron! Pan nad ydw i'n gwneud Cymraeg, rydw i'n hoffi marchogaeth (yn enwedig eleni pan mae'r ffyrdd mor dawel!), canu a gofalu am ein gardd fawr. Fel arfer, rydw i'n treulio amser gyda fy ŵyr, sydd bron yn flwydd oed, wrth gwrs dim ond perthynas 'virtual' sydd gennym ar hyn o bryd".

## Talywern

Nora Wigley, Lleiniau, Darowen
rhos.dyrnogmail.com@email.com

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad a'n cofion at Rhidian, Elen a'r teulu, Rhiwgriafol ar golli taid, sef Mr William Pughe, Bwlchlluan, Penegoes.

# Lle Crafa'r Iâr - Marian Rees

# Pawb a'i fys lle bo'i ddolur

Mae cyfnod y clo feirws yn amlwg i barhau, mwy neu lai, a waeth heb na darogan y cam nesaf. Fydd agwedd ffwrdd â hi yn arwain i ddim ond trybini. Ar y nodyn yna, dwi'n synnu dim, yn anffodus, fod nifer marwolaethau o'r Cofid 19 yn Rhondda/Cynon Taf yr uchaf ym Mhrydain yn ôl rhif y boblogaeth, oherwydd pan siaradais â ffrind yno fis yn ôl honnai fod pobol y Cwm yn mynd yn braf o gwmpas eu pethau heb boeni'n ormodol, gan awgrymu ein bod ni braidd yn dwp o gydymffurfiol i fyny yma. Erbyn hyn daeth yn amlwg nad yw penrhyddid wedi gweithio, a rhaid i ninnau gofio hynny rhag mynd yn ddiamynedd.

Rwy'n tynnu fy het i, drigolion fflatiau neu dai heb bwt o ardd, sy'n dygymod â'r drefn tra'n ceisio cadw cytw ar dyaid o blant. Dylid eu rhestru ymysg yr "arwyr" oherwydd mae'n gofyn am stamina ac amynedd aruthrol. Fuasai'r Iâr fawr o werth, wedi arfer bob amser â digon o le o nghwmpas. Fel mae'n digwydd mae ganddi ardd (rhy!) helaeth i grafu ynddi, a bu wrthi'n plannu coed 'fale a ffa dringo, ac yn torri rhedyn a mieri a jac-y-neidiwr cyn iddyn nhw fynd yn feistr corn arni. Ie, fi ydy'r meistr am y tro nes daw cawod o law... Ond y gwenyn! Dydyn nhw ddim mor hawdd i'w trin â'r dalarn poethion! Dyna i chi brynhawn ges i pan ddarganfûm fod haid wedi ymnythu rhwng planciau yng nghornel y garej. Sut i'w cael oddi yno heb eu chwalu'n ormodol ac i mewn i gwch? Doedden nhw ddim yn belen gron daclus. A fydden nhw ddim mewn hwyliau rhy dda.....Y prif beth oedd ei angen oedd pwyll ac amynedd wrth eu hysgwyd fesul planc i mewn i focs cardfwrdd (ddaliai gynt winoedd Tanners ond rŵan yn dal cynhyrchwyr medd! Wn i ddim o ble daeth y bocs...!) Ysgwyd cynnwys y bocs wedyn i mewn i'r cwch a chau'r caead wedi gadael diod o ddŵr a siwgr iddyn nhw. Y gobaith oedd bod y frenhines i mewn, hynny'n bwysig, ac y deuai'r gweddill hedegog a rhai o'r garej i ymuno â hi... Dychwelyd ymhen awr neu ddwy yn dalog iawn i weld canlyniad fy ngwrhydri. Och fi! Roedd y gwenyn yn swp o dan y cwch, yn siôl drwchus o amgylch eu brenhines. Pwy faga blant - neu wenyn!



**Tasg anobeithiol**

Bu'r cyfnod clo yma'n gyfle i fynd i'r afael â llawer o dasgau a esgeuluswyd. Penderfynu wnes i fod yma ormod o silffoedd llyfrau gorlawn yma a thraw trwy'r tŷ a'r rheiny'n llawn o gyfrolau na ddarllenais ac na ddarllenaf byth tawn i'n byw tan Sul Pys. Penderfynu mynd i'w canol a didoli tipyn... Ond coeliwch fi 'dwi'n siŵr pan ddweda i mai chydig iawn sydd wedi magu traed. Gwae fi!

**O.M.**

Ond mae yna un newydd-ddyfodiad ar y silff sydd wedi hawlio dyddiau o f'amser i yn ddiwarafun, llyfr a'i deitl byr yn dweud y cwbl, "O.M." Cofiant newydd i Syr Owen Morgan Edwards gan y Fns. Hazel Walford Davies ydy hwn, yn ei glawr caled coch gyda'i 760 o dudalennau. Ie, dyddie lawer o ddarllen oherwydd bod cymaint i'w ddweud. Wedi ei eni yn un o feibion fferm eiddil Coed-y-pry a chael ei addysg gynnar yn Llanuwchllyn a'r Bala, daeth yn adnabyddus fel hanesydd, darlithydd (Cymrawd Coleg Lincoln, Rhydychen), pregethwr (yn ifanc), llenor, crwydryn y Cyfandir a Chymru benbaladr, ond yn bennaf "addysgwr" a chwildrodd natur addysg yng Nghymru pan ddaeth yn Brif Arolygwr Ysgolion Cymru yn 1907. Dan ei oruchwyliaeth diflannodd y 'Welsh Not' am byth a gorseddwyd y Gymraeg am y tro cyntaf yn ein hysgolion cynradd. Hefyd, daeth â llenyddiaeth Gymraeg yn fyw iawn i fyd plant trwy ei greadigaeth "Cymru'r Plant" (ar ei wely angau mynnodd addewid gan ei fab, Ifan ab Owen, y byddai'n parhau i'w gynhyrchu, ac fe wnaeth yntau hynny, a sefydlu'r Urdd).

Er ei faich trwm o waith beunyddiol cynhyrchodd O.M. Edwards doreth o lenyddiaeth ar gyfer oedolion, stwff darllenadwy ac at ddant yr oes: dyna i chi'r cylchgrawn 'Cymru', a chyfresi o lyfrynnau megis 'Cyfres y Fil' a 'Chyfres y Werin', a'r llyfrau y mae eu teitlau'n adnabyddus i ni ond y byddai'n dda i ni eu darllen: 'Cartrefi Cymru' (1896), 'Hanes Cymru', 'Tro yn yr Eidal', 'Tro yn Llydaw', 'Tro yn y Wlad', 'Clych Atgof'. Mae rhywbeth yn ffres iawn yn ei lyfrau "crwydro" – does dim arlliw o P.C. ar eu cyfyl ac mae'n rhwydd lawdrwm ar Almaenwyr, Iddewon a Phabyddion, er weithiau'n gwrthddweud ei hunan. Rhaid cofio ei fod yn hoff o dynnu coes ac efallai fod yn rhaid cymryd hyn efo pinsiaid go lew o halen. Sgrifennai'n gyson i gylchgronau Cymraeg (tua 20 ohonynt) ac fel hanesydd gwnaeth gyfraniadau i'r Gwyddoniadur Cymraeg. Roedd ei wybodaeth yn ddihysbydd a'i ynni a'i weithgarwch yn ddiarbed. Yn wir, hynny a'i lladdodd, sef ei waith mawr, di-ildio. Ac fe wnaeth y cyfan er mwyn Cymru a'r Gymraeg.

Gogoniant arbennig y llyfr ydy ei fod yn rhoi portread llawn iawn i ni o gymeriad O.M. yn ei holl gymhlethdod, rhywbeth nas cafwyd o'r blaen. Hefyd, am y tro cyntaf, cawn ddod i adnabod Ellen Davies, y Prys Mawr, merch ffarm gyfagos a ddaeth yn wraig iddo, Ellen fedrus, ddoeth, hir-ymarhous, a diwylliant Penllyn yn unig yn ei chymhwyso'n abl i fywyd Rhydychen neu ble bynnag. Cawn ddilyn eu bywydau rhyfedd eu dau, athrist ar adegau, ond annatod hefyd.

Diolch, Hazel, am gyfrol y mae yn fraint i bob Cymro a Chymraes gael ei darllen: cyfrol i'w hychwanegu at gompost cyfoethog ein cenedligrwydd.


**Coelio**

Ar fin nosau mwynion Mai cerddwn i Ddolau Cau i glywed yr adar yn dal i byncio ac wrth ddychwelyd gweld yr hen ŵr a'i faich o goed yn y lleuad llawn.

Hwyl!

## Atebion Enwau Blodau Mis Mai

1. Briallen Cannwyllbren *(Candelabra Primula)*
2. Llysiau'r Hedydd *(Delphinium)*
3. Carpiog y Gors *(Ragged Robin)*
4. Fflocs ymgripiol *(Creeping Phlox)*
5. Cwins *(Chaenomeles)*
6. *Ceonothus*



**Tybed oes gan rai o'n darllenwyr enwau Cymraeg gwahanol am y blodau yma? Cysylltwch gyda ni os oes!**

# Edrych 'nôl ar y Blewyn Glas

Faint ohonoch oedd wedi synnu fod gymaint o amser wedi pasio ers penawdau'r tudalennau blaen oedd yn ***Blewyn o Obaith*** mis Ebrill? Mae'n siŵr gen i fod yna sawl *"Dyw oes 'na gymaint o amser ers hynny? Tydi amser yn hedfan!"* wrth eu darllen.
Wel dyma gyfle i edrych ar dudalennau blaen rhifynnau Mai 1980, 1990, 2000 a 2010.


BLEWYN GLAS
PAPUR NEWYDD BRO DDYFI
Rhifyn 26 MAI 1980 12c
Oes o Wasanaeth
PEN GWYN YM MRO DDYFI
PWYSIG
Côr 'Steddfod
Enillwyr
maes y steddfod

1980


BLEWYN GLAS
Rhifyn 142 Mai 1990 25c
DROS Y PLANT
CADEIRYDD Y CYNGOR
BAROD AM Y CHWARAE?
RHYDD O'R DIWEDD
Barbeciw
Arwerthiant Cist Car
Erthyglau Mis Nesaf Erbyn: 9/6/90
Newyddion Mis Nesaf Erbyn: 12/6/90
O'r Wasg: 22/6/

1990


BLEWYN GLAS
Rhifyn 250
MAI 2000
Pris 30c
Golygyddion Mai a Mehefin: Gwenfair Glyn ac Eirian Jones
Newyddion mis nesaf erbyn: 13-6-00
Dyddiad cyhoeddi: 23-6-00
CLOCIAU CLYFAR
BRENHINES Y CARNIFAL
DIWRNOD YNG NGHWMNI'R SCARLETS
TYWYSOGES Y MILENIWM
CLWB 300 Y BLEWYN GLAS
Cyfarfod Cyhoeddus

2000


Rhifyn : 360
Mai 2010
Pris 50c
Blewyn Glas
Golygyddion mis Mai a Mehefin : Manon Holt a Gwenfair Glyn
Newyddion Mehefin erbyn 8-6-10
Dyddiad Cyhoeddi 18-6-10
A oes Heddwch ?
Rhun ar y Blaen
Clwb 300 y Blewyn Glas

2010

**1980** – Roedd Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'i chyffiniau yn mynnu tipyn o sylw ar y dudalen flaen yma neu Eisteddfod Mathafarn fel fydde llawer yn ei hadnabod. Yma roedd cyhoeddiad mai ar dir Mathafarn, Llanwrin y fyddai'r brifwyl ym 1981 a chyhoeddiad bod cynlluniau ar y gweill i gynnal 'Côr 'Steddfod' ar gyfer yr achlysur. Hefyd ar y dudalen roedd cyhoeddiad pwysig gan y *Blewyn Glas* - roedd y papur yn cynyddu ei bris i 15c ac roedd y dyddiad cau i dderbyn newyddion yn newid i'r ail ddydd Mawrth o bob mis - rhywbeth sydd yn dal i ddigwydd heddiw! Lluniau'r dudalen flaen oedd, un o Emlyn a Dora Griffiths oherwydd roedd y ddau'n ymddeol fel gwerthwyr llaeth yn yr ardal wedi deng mlynedd ar hugain, llun arall o 'Pen gwyn', cymeriad cysylltiedig â'r Urdd yn ymweld ag Ysgol Gynradd a Babanod Machynlleth a llun bach o Sioned Tudor a Christine Moyle, wedi iddynt ennill gwobrau am ysgrifennu traethodau yng nghystadleuaeth Cymdeithas Sir Drefaldwyn.

**1990** – Dynion lleol oedd ar dudalen flaen y rhifyn yma. Roedd y pennawd 'Dros y Plant' yn dathlu bod Brynmor Lewis, Aberhosan wedi cwblhau Marathon Llundain gan godi £200 at goffrau Ysgol Feithrin Machynlleth, ac roedd cyfran o'r arian wedi'i ddefnyddio i dalu am y ciosg pren aeth i'r Ysgol Feithrin i'r plant chwarae gyda - tybed faint o blant y 90au sy'n cofio'r ciosg yma? 'Barod am y Chwarae?' oedd un o'r penawdau eraill y dudalen flaen a hynny er mwyn cyhoeddi cyfleusterau'r "Ganolfan foethus" oedd ar fin cael ei chwblhau ym Machynlleth. Ie, na chi, Canolfan Hamdden Bro Ddyfi. Ar y pryd, doedd dim byd tebyg iddi yn yr ardal ac mae'r ganolfan yn dal i fod yn ganolbwynt i fyd chwaraeon yr ardal heddiw. Y trydydd llun ar y dudalen flaen oedd un o Dafydd Wyn Jones, Blaenplwyf, wedi iddo gael ei ethol yn Gadeirydd Dosbarth Maldwyn; y tro cyntaf ers 1974 i frodor o Fro Ddyfi gael ei ethol. Roedd un stori fach arall yn cael sylw yn y rhifyn yma hefyd, gyda'r pennawd 'Rhydd o'r Diwedd'. Sôn oedd yr erthygl mor falch oedd yr ardal wedi'r newyddion da am ryddhau'r gwystlon Americanaidd, Robert Polhill o Beirut wedi 1,183 diwrnod mewn caethiwed. Cysylltiad y stori yma â'r Blewyn Glas oedd bod Mrs Williams, Maes-y-Creiau yn gyfnither i fam Robert Polhill.

**2000** – Ieuenctid yr ardal oedd yn mynnu sylw'r dudalen flaen ym Mai 2000. Gwelwyd dau lun o'r plant oedd wedi'u dewis fel swyddogion Carnifal Machynlleth, pobl sydd erbyn hyn yn eu 30au a'u hugeiniau hwyr! Yna faint ohonoch sy'n cofio'r fenter 'Clociau Clyfar' yn Ysgol Bro Ddyfi? Roedd criw o'r chweched dosbarth wedi sefydlu'r fenter o greu clociau fel rhan o gystadleuaeth 'Menter yr Ifanc' Canolbarth Cymru ac wedi dod yn fuddugol am y cyflwyniad gorau, adroddiad cwmni a'r cwmni gorau, ac wedi mynd ymlaen i'r rowndiau terfynol yng Nghaerdydd. Yna'r llun ar waelod y dudalen flaen, er syndod i fi, oedd llun ohona i'n 11 oed gyda Matt Cardey a Rupert Moon! Fe soniais yn rhifyn Ebrill ***Blewyn o Obaith*** am fy mhrofiad o fod yn fascot i Glwb Rygbi Llanelli, wel yn y rhifyn yma oedd hanes y diwrnod a'r profiad a gefais lawr ym Mharc y Strade. Pwy fase'n meddwl bod ugain mlynedd wedi pasio'n barod!

**2010** – Roedd teulu Bleddyn, Penegoes a Llanbrynmair wedi cael cryn lwyddiant yn llenyddol yn yr wythnosau oedd yn arwain at y rhifyn yma gan i Hedd Bleddyn a'i ŵyr, Rhun Bleddyn gael lle ar y dudalen flaen. Roedd Hedd wedi ennill y gadair yn Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid am ysgrifennu cynghanedd ar y thema Gwawr gan Meirion Macintyre Huws a Rhun wedi cipio'r wobr gyntaf am ysgrifennu rhyddiaith i blant blwyddyn 7 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd gwaith buddugol Hedd i'w weld ar dudalen 10 y rhifyn yma.

# Garddio, Blodau a Mwy

*Gan Ann Parry, Glanfechan*

Dyma ni yn nhymor yr haf, ac mor hardd mae ein cefn gwlad yn edrych gyda'i flanced glas o glychau'r gog. Roeddwn wrth fy modd yn clywed y gog yn canu ar y 12fed o Fai, oedd llawer yn hwyrach na flwyddyn ddiwethaf.

Faint ohonoch sydd wedi sylwi ar gorws yr adar bach yn y bore? Doeddwn i heb sylwi o'r blaen fod gymaint ohonynt, a'u cân mor swynol.

Rydym wedi cael tywydd hyfryd, a beth sy'n well na gallu mynd am dro, neu fwynhau yn yr ardd.

Mae'n braf clywed am gymaint yn mwynhau garddio, dim bwys os gardd fawr neu fach sydd ganddynt, neu gafnau, potiau neu declynnau wedi'u hailgylchu. Unwaith mae'r planhigion yn blodeuo maent yn rhoi pleser i bawb.

Yn ôl y sôn, mae nifer fawr iawn yn mwynhau plannu hadau llysiau neu flodau ar hyn o bryd ac mae'n glên gweld fod plant yn cymryd diddordeb hefyd. Pan oeddwn i'n fach ac yn yr ysgol, roeddwn i'n cael gwersi byd natur ac wrth fy modd yn hela dail o bob math a'u gludo i wneud llun, neu ddefnyddio paent i liwio'r dail a phrintio ar bapur. Roedden ni hefyd yn dysgu enwau'r coed roedd y dail yn tyfu arno , enwau blodau, pa anifeiliaid neu adar oedd yn byw yn y gerddi ac yn y gwyllt, beth oedden nhw'n bwyta a ble oedden nhw yn byw. Gwersi bywyd go iawn! Mae'n brofiad i blant ddysgu plannu hadau, cyfri faint oedd yn egino a faint o amser maen nhw yn cymryd i dyfu. Gyda blodyn haul, gallant fesur faint mae o'n tyfu mewn wythnos a pa mor dal mae o'n tyfu.

Rwy'n clywed am gymaint o blant yn mwynhau coginio, sydd yn braf. Faint o blant sydd yn gwybod fod bosib gwneud cacen o foron neu fetys? Mae plant yn mynd i ddysgu sgiliau amhrisiadwy yn ystod eu hamser dysgu gartref. Fyswn yn cynghori plant i ysgrifennu am bopeth maent wedi'i wneud yn ystod yr amser adref . Mi fydd yn ddiddorol dros ben i edrych 'nôl mewn blynyddoedd i ddod.

Mae'n braf gweld gymaint o bobl yn gwneud pethau mor garedig ac yn helpu mewn pob ffordd bosib ar hyn o bryd. Mae yna lawer o addurniadau enfys o gwmpas yr ardal; symbol o obaith a chefnogaeth. Mae un o fy hoff osodiadau o yn un o liwiau'r enfys (gweler y llun).



Mae llawer yn cymharu'r amser yma gyda'r Ail Ryfel Byd. Gweld pobl yn barod i helpu ei gilydd, a phawb yn tyfu llysiau yn eu gerddi. Erbyn 1943 roedd miliwn a hanner o randiroedd ym Mhrydain a'r cyngor oedd i dyfu bresych, letys, sbigoglys, cennin, sbrowts, a kale. Tyfwyd miliwn o dunellau o lysiau y flwyddyn gan bob, a'r gwastraff yn mynd i'r moch. Roedd stryd gyfan yn hela at ei gilydd i brynu ac edrych ar ôl mochyn. O hyn, cychwynnwyd y clwb moch, ac erbyn 1945 roedd 7,000 o glybiau.

Yn debyg i fel mae rhai cynnyrch heddiw, roedd wyau ffres fel aur, felly allforio powdwr wyau o America oedd y ffordd. Roedd gwragedd tŷ yn dweud fod cacen sbwng wedi'u gwneud gyda phowdwr wy yn dda i ddim, ond i patsio tyllau yn y 'lino' ar lawr. Erbyn 1944 roedd chwarter pobl y wlad yn cadw ieir yn eu gerddi i gael wyau ffres. Rydym wedi gweld prinder blawd yn broblem oherwydd bod gymaint yn coginio ar hyn o bryd, a gwelwyd prinder pethau eraill yn y siopau bryd hynny hefyd.

Adeg yr Ail Ryfel Byd diflannodd sawl peth, fel ffrwythau, a rhai oedd ar gael yn mynd am brisiau anhygoel . Yn 1941 roedd grawnwin yn gwerthu am 17s - 6d y pwys. Roedd hyn yn gyfartal â chyflog deg diwrnod i ddyn.

Roedd winwns hefyd yn brin, a gwerthwyd un oedd yn pwyso pedwar pwys am £4-3s-4d .

Y cyngor a gafwyd am brinder siwgr oedd i ddefnyddio moron i felysu cacennau a phwdinau.

Heddiw mae yna rai yn bod yn farus ac yn gofyn prisiau afresymol am bethau, ond adeg y rhyfel cafodd un person ddirwy o £5 am godi prisiau gerfydd 450%. Mae rhan fwyaf yn meddwl fod ailgylchu yn beth diweddar, ond yn y 40au roedd gan bobol bedwar bin - un i duniau i wneud awyrennau, un i esgyrn wedi'u berwi i'w ddefnyddio i wneud *glycerine* i'r ffrwydrynnau, un i wastraff bwyd i'r moch ac un arall ar gyfer papur i wneud *"shell cases"*. Felly, nid peth newydd yw ailgylchu. Ym mis Gorffennaf 1945 ddaeth diwedd i'r tywyllwch a'r golau yn ôl ymlaen ar ôl ennill y rhyfel.

Gobeithio fod goleuni ar y gorwel ydyn ni hefyd heddiw. Daliwch ati i fwynhau yn yr ardd.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

**Cronfa Argyfwng Mudiad Meithrin**

Mae Mudiad Meithrin yn teimlo'n angerddol ynglŷn â rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i chwarae, dysgu a thyfu yn y Gymraeg ein Cylchoedd Meithrin. Yn wyneb y sefyllfa bresennol oherwydd y pandemig Covid 19 mae nifer fawr o'r Cylchoedd Meithrin wedi gorfod cau dros dro. Gan fod y Cylchoedd yn ddibynnol ar ffioedd rhieni i'w cynnal yn bennaf, rydym wedi agor Cronfa Argyfwng er mwyn gallu helpu i dalu costau staff, rhent ac ati fel bo'r Cylchoedd Meithrin yn gallu goroesi sgil-effeithiau y pandemig, gan felly barhau gyda'r gwaith o greu siaradwyr Cymraeg newydd.

Os ydych chi mewn sefyllfa i helpu byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gyfrannu i'r gronfa argyfwng. Gallwch gyfrannu drwy ein tudalen JustGiving arbennig: https://www.justgiving.com/campaign/cefnogicylchoedd

Mae hefyd modd cyfrannu drwy ddanfon siec at Mudiad Meithrin, wedi'i gyfeirio at 'Cronfa Argyfwng Cylchoedd Meithrin' i'r cyfeiriad canlynol:
Canolfan Integredig
Mudiad Meithrin
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PD

Byddem yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad – bach neu fawr.

Ar ran plant bach Cymru:
DIOLCH yn FAWR.

# Eisteddfod T - Eisteddfod i ti, o'r tŷ




Er na fydd Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn cael ei chynnal eleni, bydd wythnos o ddarllediadau byw yn dal i fod ar gael. Bwriad 'Eisteddfod T' yw rhoi'r cyfle i blant ac ieuenctid Cymru gystadlu fel y buasent yn yr Eisteddfod go iawn o ddiogelwch eu cartrefi yn ystod cyfnod yr argyfwng Covid-19. Addasiad fydd yr Eisteddfod o'r fformat cystadlu traddodiadol er mwyn gallu cynnal cystadlaethau ar lefel cenedlaethol a hynny gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Fe fydd 'na gyfle hefyd i gymryd rhan mewn cystadlaethau llai traddodiadol, a hynny er mwyn codi hwyl trwy greu adloniant yn y tŷ.

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chyflwyno o stiwdio fach yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd, a bydd y beirniadu wedi digwydd o flaen llaw. Byddwn yn darganfod pwy sydd wedi derbyn safle 1af, 2il a 3ydd yn **fyw.** Bydd Cyfle hefyd i glywed y feirniadaeth / sgwrsio gyda'r beirniad ac o bosib sgwrs gyda'r cystadleuwyr

Bydd y darlledu ar gael ar S4C ac S4C Clic:

**Nos Sadwrn 23 Mai** Croeso i Eisteddfod T - 7.30yh

**Dydd Llun 25 Mai – Dydd Gwener 29 Mai:** Eisteddfod T yn fyw rhwng 4.00 a 6.00yh | Yn Fyw ar S4C Clic rhwng 12.30 a 2.00yp | Uchafbwyntiau'r dydd 8.00yh

**Nos Sadwrn 30 Mai** Uchafbwyntiau Eisteddfod T 2020

Gwyliwch yr hwyl a'r cystadlu yn fyw o'r soffa i sedd y pafiliwn bob dydd!

## 2020 yn flwyddyn yr Eisteddfod AmGen!

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi lansio prosiect newydd, sy'n rhoi blas o'r Brifwyl i bawb dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Bwriad AmGen yw sicrhau bod elfennau o'r Eisteddfod ar gael i bobl eu mwynhau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Wrth gyhoeddi'r prosiect, dywedodd Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, "Fel pawb arall, ry'n ni'n hynod siomedig nad oes modd i ni gynnal yr ŵyl yng Ngheredigion eleni. Ond roedden ni'n benderfynol na fyddai'n rhaid i bawb fynd heb ychydig o 'Steddfod am eleni.

"Byddwn yn cynnal Eisteddfod AmGen yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, pan roedd pawb wedi gobeithio bod ar y Maes yn Nhregaron, ac yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am yr ŵyl dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn falch o gael gweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn gwireddu rhywbeth a fydd o'r un anian â'r Eisteddfod, ond yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol iawn.

"Dros yr wythnosau diwethaf, ry'n ni wedi bod yn mynd drwy archif yr Eisteddfod, yn trafod gyda nifer fawr o bartneriaid ac yn meddwl am syniadau gwreiddiol a newydd a fydd, gobeithio, yn apelio at ein cynulleidfa. Ry'n ni, fel pawb arall wedi gorfod meddwl am ein gwaith mewn ffordd cwbl wahanol, ac mae wedi bod yn brofiad diddorol rhoi rhaglen at ei gilydd sy'n cynnig rhywbeth i bawb, gobeithio.

"Ond does dim rhaid aros tan Awst er mwyn dechrau mwynhau cynnwys o bob math sy'n ymwneud â'r Eisteddfod. O ddydd Llun 18 Mai ymlaen, bydd AmGen yn rhedeg o leiaf un gweithgaredd y dydd, gan ddefnyddio nifer fawr o blatfformau, a chan weithio'n agos gyda'r wasg a'r cyfryngau ar draws Cymru hefyd.

"Byddwn yn cyhoeddi amserlen wythnosol AmGen bob dydd Gwener, gyda nifer o weithgareddau'n ymddangos ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yr Eisteddfod ac eraill yn weithgareddau ar blatfformau fel Zoom ac AM.

"O weithdai sy'n rhoi blas o ambell grefft gynhenid Gymraeg fel y cynganeddion a gosod cerdd dant, i arbrofion gwyddonol wythnosol i blant, ac o gyfle i fwynhau rhai o ddarlithoedd eiconig y blynyddoedd diwethaf i setiau cerddoriaeth byw a gweithgareddau i ddysgwyr, fe fydd rhaglen wythnosol AmGen yn cynnwys yr un cymysgedd eclectig ag ymweliad â'r Maes.

"Yn ogystal, bydd ambell ddigwyddiad mwy yn cael ei ddarlledu o dro i dro, gan roi blas i bobl o brosiectau fel Encore a'r Tŷ Gwerin. Ein gobaith yw cyhoeddi nifer fawr ohonyn nhw ar wefan yr Eisteddfod a'n sianel You Tube wedyn, fel bod gennym gofnod o'r gweithgareddau, a bod pobl yn gallu dychwelyd atyn nhw dro ar ôl tro dros yr wythnosau nesaf.

"Nid pawb sy'n defnyddio technoleg, ac felly fe fyddwn yn gweithio gyda'r wasg a'r cyfryngau ar draws Cymru, er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad hygyrch i weithgareddau AmGen. Gan gydweithio'n rheolaidd gyda rhaglenni fel Heno a Prynhawn Da, bydd cyfle i'r gynulleidfa gartref fwynhau agweddau o'r prosiect, a byddwn yn datblygu elfennau penodol i apelio at wahanol gynulleidfaoedd.

"Ry'n ni hefyd yn edrych ymlaen at gynnal rhai gweithgareddau sy'n benodol ar gyfer ein cefnogwyr yn nalgylch yr Eisteddfod yng Ngheredigion a Llŷn ac Eifionydd. Byddwn yn trafod syniadau amrywiol gyda'r pwyllgorau lleol er mwyn sicrhau bod cynnwys AmGen yn apelgar i'r ardaloedd hyn, ac ein bod yn ail-gydio yn ein gwaith ymgysylltu cymunedol ar lawr gwlad, mewn ffordd cwbl wahanol.

"Ond fel yr Eisteddfod ei hun, mae AmGen yn brosiect cenedlaethol, ac felly ry'n ni am i bobl o bob cwr o Gymru a thu hwnt allu ymuno gyda ni ar gyfer ein gweithgareddau amrywiol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ar ddiwedd y prosiect, y gobaith yw ein bod ni wedi llwyddo i ysbrydoli ein cynulleidfa ac ein bod ni wedi llwyddo i greu cynnyrch newydd ac amgen mewn ffordd cwbl wahanol i'r arfer.

"Ry'n ni'n edrych ymlaen at gychwyn ar y prosiect ac at gyhoeddi ein hamserlen gyntaf. Felly, cadwch olwg allan am AmGen dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf, ac os oes gennych chi unrhyw syniadau am bethau eraill y byddech chi'n hoffi'u gweld, cysylltwch!"

Cyhoeddiwyd amserlen gyntaf AmGen ddydd Gwener 15 Mai, gyda'r gweithgareddau wedi cychwyn ers 18 Mai.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.eisteddfod.cymru/amgen.**

# Atebion

## 'Maldwyn mewn emojis'

1. Carreghwfa
2. Y Foel
3. Carno
4. Cegidfa
5. Sycharth
6. Caersws
7. Dolfor
8. Penegoes
9. Llanrhaeadr-Ym-Mochnant
10. Four Crosses
11. Glantwymyn
12. Llansilin
13. Manafon
14. Berriw
15. Penant Melangell
16. Brithdir
17. Llanbrynmair
18. Penfforddlas
19. Garthmyl
20. Llangadfan

## 'Idiom neu ddihareb mewn emojis'

1. Bwrw hen wragedd a ffyn
2. Yn wên o glust i glust
3. Diwedd y gân yw'r Geiniog
4. Wyneb i waered
5. Nid Aur yw popeth Melyn
6. Dros ben Llestri
7. Crynu yn ei 'sgidie
8. Siarad drwy ei het
9. Fel cyllell trwy fenyn
10. Rhaid cropian cyn cerdded
11. Rhoi'r ffidil yn y tô
12. Mae Gwaed yn Dewach na dŵr
13. Pwyso a Mesur
14. Taro Deuddeg
15. Dwylo Blewog
16. Rhoi halen ar y briw
17. Un wennol ni wna Wanwyn
18. Y Cyw melyn olaf
19. Taro'r hoelen ar ei phen
20. A'i wynt yn ei ddwrn

## Atebion y Cwis Chwaraeon

1. Reslo sumo
2. 80 munud
3. Groeg
4. Dau chwaraewr
5. Dim ond un
6. 501
7. Lance Armstrong
8. Y bêl ddu
9. Yr Alban
10. Saith gwaith

# Cystadleuaeth!




Mae'r geiriau 'Daw eto haul ar fryn' wedi'u clywed a'u gweld droeon dros y mis neu ddau diwetha' ond pwy oedd yn gwybod mai'n draddodiadol, '*Daw eto haul ar fryn, os na ddaw blodau, fe ddaw chwyn*' sy'n gywir? Felly beth am gael cystadleuaeth fach, o roi cynnig ar newid diwedd y dywediad yma – 'Daw eto haul a'r fryn…'. Rhowch gynnig arni ac anfonwch eich ceisiadau at papurblewynglas@gmail.com neu eu postio i Glancoegen, Cemaes, Machynlleth. Byddwn yn penodi beirniad i ddewis y goreuon, a'u cyhoeddi yn rhifyn Mehefin. Pob lwc… ewch ati i ysgrifennu!

# Sudoku

Mae rheolau Sudoku yn hawdd. Mae angen rhif rhwng 1 a 9 ym mhob bwlch gwag. Dylai pob rhes ar draws y grid gynnwys pob un o'r rhifau rhwng 1 a 9. Dylai pob colofn i lawr y grid gynnwys pob un o'r rhifau 1 i 9. Dylai pob sgwâr 3 x 3 hefyd gynnwys pob un o'r rhifau o 1 i 9. Does ond un ateb cywir.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 4 | 2 | | | | | | 3 |
| 5 | | 1 | 4 | 6 | | 8 | | |
| 9 | 7 | | | 5 | 1 | | 6 | |
| | 6 | | 9 | 8 | | 4 | | 1 |
| | 9 | 7 | | | 4 | 5 | 3 | 6 |
| 2 | | 4 | 6 | | 5 | 7 | 8 | |
| 1 | | | | | | | 7 | 8 |
| 7 | | 9 | 2 | 1 | 3 | | 4 | |
| 4 | 5 | | 8 | | 9 | 3 | 1 | |

ISSN 1473-3692
9 771473 369000
Rhif 469 | EBRILL 2020